

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 Rhif 244 (Cy. 72)

TAI, CYMRU

Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022

Gwnaed - - - - 8 Mawrth 2022
Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru - - - - 10 Mawrth 2022
Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 236(3) a 256(1) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016⁽¹⁾.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022 a deuant i rym ar ^{F1}1 Rhagfyr 2022 (y diwrnod y daw adran 239 o'r Ddeddf i rym)] .

F1 Geiriau yn [rhl. 1](#) wedi eu hamnewid (13.8.2022) gan [Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi \(Cymru\) 2016](#) (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), erglau. 1(2), **9**

Gwybodaeth Cychwyn

II Rhl. 1 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—
mae i “contract safonol” (“*standard contract*”) yr ystyr a roddir gan adran 8 o'r Ddeddf;
mae i “contract safonol rhagarweiniol” (“*introductory standard contract*”) yr ystyr a roddir gan adran 16(4) o'r Ddeddf;
mae i “contract safonol ymddygiad gwaharddedig” (“*prohibited conduct standard contract*”) yr ystyr a roddir gan adran 116(6) o'r Ddeddf;
ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

(1) 2016 dccc 1. Gweler adran 252 am y diffiniad o “rhagnodedig”.

Gwybodaeth Cychwyn

- I2** Rhl. 2 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Ffurff ragnodedig

3.—(1) Mae ffurff ragnodedig hysbysiad neu ddogfen arall y mae'n ofynnol neu yr awdurdodir ei roi neu ei wneud, neu ei rhoi neu ei gwneud, gan y Ddeddf neu o'i herwydd fel y mae wedi ei nodi yn y rheoliadau a ganlyn a'r Atodlen.

(2) Mae hysbysiad neu ddogfen arall sydd ar ffurff sydd ag effaith sylweddol debyg i'r ffurff ragnodedig yn ddilys.

Gwybodaeth Cychwyn

- I3** Rhl. 3 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o gontract safonol

4. Mae ffurff ragnodedig hysbysiad o dan adran 13 o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW1 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

- I4** Rhl. 4 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o gyfeiriad y landlord

5. Mae ffurff ragnodedig hysbysiad o dan adran 39(1) o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW2 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

- I5** Rhl. 5 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad bod y landlord wedi newid a hysbysiad o gyfeiriad y landlord newydd

6. Mae ffurff ragnodedig hysbysiad o dan adran 39(2) o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW3 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

- I6** Rhl. 6 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o newid cyfeiriad y landlord

7. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan adran 39(3) o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW4 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

- I7** Rhl. 7 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o'r amodau a osodir gan y prif landlord wrth gydsynio i contract isfeddiannaeth

8. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan adran 61(2) o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW5 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

- I8** Rhl. 8 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o benderfyniad y prif landlord i drin contract isfeddiannaeth fel contract safonol cyfnodol

9. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan adran 61(7) o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW6 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

- I9** Rhl. 9 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad i'r isddeiliad o hawliad meddiant yn erbyn deiliad y contract

10. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan adran 64(2) o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW7 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

- I10** Rhl. 10 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o hawliad adennill meddiant estynedig yn erbyn yr isddeiliad

11. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan adran 65(3)(b) o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW8 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

- I11** Rhl. 11 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o waharddiad posibl deiliad y contract ar ôl cefnu ar y prif contract a'r contract isfeddiannaeth

12. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan adran 66(3) o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW9 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

I12 Rhl. 12 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Ffurf trosglwyddiad: trosglwyddiad contract meddiannaeth gan ddeiliad contract

13. Mae ffurf ragnodedig trosglwyddiad o dan adran 69(1)(a) o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW10 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

I13 Rhl. 13 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Ffurf trosglwyddiad: trosglwyddiad o hawliau a rhwymedigaethau o dan contract meddiannaeth gan gyd-ddeiliad contract

14. Mae ffurf ragnodedig trosglwyddiad o dan adran 69(1)(b) o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW11 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

I14 Rhl. 14 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o amrywio'r rhent

15. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan adran 104(1) neu 123(1) o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW12 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

I15 Rhl. 15 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o drosglwyddiad o hawliau a rhwymedigaethau o dan contract safonol cyfnod penodol gan gyd-ddeiliad contract

16. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan gyfnod contract o'r math a grybwyllir yn adran 141(2) o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW13 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

- I16** Rhl. 16 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o drosglwyddiad o hawliau a rhwymedigaethau o dan contract safonol cyfnod penodol ar farwolaeth cyd-ddeiliad contract

17. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan gyfnod contract o'r math a grybwyllir yn adran 142(2) o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW14 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

- I17** Rhl. 17 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o wahardd dros dro: contract safonol â chymorth

18. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan adran 145(4) o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW15 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

- I18** Rhl. 18 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad y landlord o derfynu: contract safonol cyfnodol gyda chyfnod hysbysu byrraf a ganiateir o chwe mis (heblaw contract safonol rhagarweiniol neu contract safonol ymddygiad gwaharddedig)

19. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan adran 173(1) o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW16 yn yr Atodlen—

- (a) pan na chaiff y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad fod yn llai na chwe mis ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad i ddeiliad y contract o ganlyniad i adran 174(1) o'r Ddeddf(2), a
- (b) pan fo'r hysbysiad yn ymwneud â chontract safonol cyfnodol heblaw contract safonol rhagarweiniol neu contract safonol ymddygiad gwaharddedig.

Gwybodaeth Cychwyn

- I19** Rhl. 19 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

(2) Diwygiwyd adran 174(1) gan adran 1(2)(a) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 ([dsc 3](#)) ("Deddf 2021").

Hysbysiad y landlord o derfynu: contract safonol cyfnodol gyda chyfnod hysbysu byrraf a ganiateir o ddau fis (heblaw contract safonol rhagarweiniol neu contract safonol ymddygiad gwaharddedig)

20. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan adran 173(1) o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW17 yn yr Atodlen—

- (a) pan na chaiff y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad fod yn llai na dau fis ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad i ddeiliad y contract o ganlyniad i—
 - (i) adran 174A(1) o'r Ddeddf(3), neu
 - (ii) cymhwyso paragraff 25A(2)(4) o Atodlen 12 i adran 174(1) o'r Ddeddf, a
- (b) pan fo'r hysbysiad yn ymwneud â chontract safonol cyfnodol heblaw contract safonol rhagarweiniol neu contract safonol ymddygiad gwaharddedig.

Gwybodaeth Cychwyn

I20 Rhl. 20 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad y landlord o derfynu: contract safonol rhagarweiniol neu contract safonol ymddygiad gwaharddedig

21. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan adran 173(1) o'r Ddeddf, mewn cysylltiad â chontract safonol rhagarweiniol neu contract safonol ymddygiad gwaharddedig, fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW18 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

I21 Rhl. 21 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o dynnu yn ôl hysbysiad y landlord o derfynu: contract safonol cyfnodol

22. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan adran 180(3) o'r Ddeddf(5) fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW19 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

I22 Rhl. 22 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o hawliad meddiant ar sail ôl-ddyledion rhent difrifol: contract safonol (heblaw contract safonol rhagarweiniol neu contract safonol ymddygiad gwaharddedig)

23. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan—

- (a) adran 182(1) o'r Ddeddf, mewn cysylltiad â chontract safonol heblaw contract safonol rhagarweiniol neu contract safonol ymddygiad gwaharddedig, neu

(3) Mewnosodwyd adran 174A gan adran 1(3) o Ddeddf 2021.

(4) Mewnosodwyd paragraff 25A o Atodlen 12 gan adran 18 o Ddeddf 2021 a pharagraff 27(5) o Atodlen 6 iddi.

(5) Diwygiwyd adran 180(3) gan adran 8(2) o Ddeddf 2021.

(b) adran 188(1) o'r Ddeddf,

fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW20 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

I23 Rhl. 23 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o hawliad meddiant ar sail ôl-ddyledion rhent difrifol: contract safonol rhagarweiniol neu gontract safonol ymddygiad gwaharddedig

24. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan adran 182(1) o'r Ddeddf, mewn cysylltiad â chontract safonol rhagarweiniol neu gontract safonol ymddygiad gwaharddedig, fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW21 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

I24 Rhl. 24 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad y landlord o derfynu: contract safonol cyfnod penodol o fewn Atodlen 9B i'r Ddeddf

25. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan adran 186(1) o'r Ddeddf(6) fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW22 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

I25 Rhl. 25 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad cyn gwneud hawliad meddiant

26. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan adran 159(1), 161(1), 166(1), 171(1) neu 192(1) o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW23 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

I26 Rhl. 26 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad terfynu o dan gymal terfynu'r landlord: contract safonol cyfnod penodol gyda chyfnod hysbysu byrraf a ganiateir o chwe mis

27. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad—

(a) o dan gyfnod contract o'r math a grybwyllir yn adran 194(1)(7) o'r Ddeddf (cymal terfynu'r landlord), a

(6) Diwygiwyd adran 186(1) gan adran 10(1)(a) o Ddeddf 2021.

(7) Diwygiwyd adran 194(1) gan adran 11(1) o Ddeddf 2021.

(b) pan na chaiff y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad fod yn llai na chwe mis ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad i ddeiliad y contract o ganlyniad i adran 195(1) o'r Ddeddf(8), fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW24 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

I27 Rhl. 27 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad terfynu o dan gymal terfynu'r landlord: contract safonol cyfnod penodol gyda chyfnod hysbysu byrraf a ganiateir o ddau fis

28. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad—

- (a) o dan gyfnod contract o'r math a grybwyllir yn adran 194(1) o'r Ddeddf (cymal terfynu'r landlord), a
- (b) pan na chaiff y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad fod yn llai na dau fis ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad i ddeiliad y contract o ganlyniad i—
 - (i) adran 195A(1) o'r Ddeddf(9), neu
 - (ii) cymhwyso paragraff 25D(2) o Atodlen 12 i adrannau 194 a 195 o'r Ddeddf(10),

fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW25 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

I28 Rhl. 28 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o dynnu yn ôl hysbysiad terfynu o dan gymal terfynu'r landlord: contract safonol cyfnod penodol

29. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan adran 201(3) o'r Ddeddf(11) fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW26 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

I29 Rhl. 29 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o fwriad landlord i derfynu contract meddiannaeth oherwydd cefnu ar yr annedd

30. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan adran 220(3) o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW27 yn yr Atodlen.

(8) Diwygiwyd adran 195 gan adran 2(2) o Ddeddf 2021.

(9) Mewnosodwyd adran 195A gan adran 2(3) o Ddeddf 2021.

(10) Mewnosodwyd paragraff 25D o Atodlen 12 gan adran 18 o Ddeddf 2021 a pharagraff 27(7) o Atodlen 6 iddi.

(11) Diwygiwyd adran 201(3) gan adran 8(3) o Ddeddf 2021.

Gwybodaeth Cychwyn

- I30** Rhl. 30 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o derfynu contract meddiannaeth oherwydd cefnu ar yr annedd

31. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan adran 220(5) o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW28 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

- I31** Rhl. 31 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o fwriad landlord i derfynu hawliau a rhwymedigaethau cyd-ddeiliad contract oherwydd anfeddiannaeth

32. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan adran 225(3) o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW29 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

- I32** Rhl. 32 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o derfynu hawliau a rhwymedigaethau cyd-ddeiliad contract oherwydd anfeddiannaeth

33. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan adran 225(6) o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW30 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

- I33** Rhl. 33 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o fwriad cyd-ddeiliad contract i wneud cais am orchymyn sy'n terfynu hawliau a rhwymedigaethau cyd-ddeiliad contract arall oherwydd anfeddiannaeth

34. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan adran 227(3) o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW31 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

- I34** Rhl. 34 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o fwriad landlord i wneud cais am orchymyn sy'n terfynu hawliau a rhwymedigaethau cyd-ddeiliad contract oherwydd ymddygiad gwaharddedig

35. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan adran 230(2) o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW32 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

I35 Rhl. 35 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad i gyd-ddeiliaid contract eraill o fwriad landlord i wneud cais am orchymyn sy'n terfynu hawliau a rhwymedigaethau cyd-ddeiliad contract oherwydd ymddygiad gwaharddedig

36. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan adran 230(3) o'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW33 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

I36 Rhl. 36 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o estyn y cyfnod rhagarweiniol

37. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan baragraff 3 o Atodlen 4 i'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW34 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

I37 Rhl. 37 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o fwriad i wneud cais am orchymyn sy'n arddodi contract safonol ymddygiad gwaharddedig

38. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan baragraff 1(1) o Atodlen 7 i'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW35 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

I38 Rhl. 38 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o ddiwedd cyfnod prawf: contract safonol ymddygiad gwaharddedig

39. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan baragraff 3(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW36 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

- I39** Rhl. 39 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad o estyn cyfnod prawf: contract safonol ymddygiad gwaharddedig

40. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan baragraff 4(1) o Atodlen 7 i'r Ddeddf fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW37 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

- I40** Rhl. 40 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Hysbysiad y landlord o derfynu: contract safonol cyfnod penodol (contract wedi ei drosi)

41. Mae ffurf ragnodedig hysbysiad o dan baragraff 25B(2) o Atodlen 12 i'r Ddeddf(12) fel y mae wedi ei nodi yn Ffurflen RHW38 yn yr Atodlen.

Gwybodaeth Cychwyn

- I41** Rhl. 41 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Julie James
Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o
Weinidogion Cymru

YR ATODLEN

Rheoliad 3

Ffurfiâu Rhagnodedig

Rheoliad 4

FFURFLEN RHWI

Gwybodaeth Cychwyn

I42 Atod. Pt. 1 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Ffurflen RHW1

HYSBYSIAD O GONTRACT SAFONOL

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord cymunedol i roi hysbysiad i ddeiliad contract o dan adran 13 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod y contract meddiannaeth yn contract safonol.

<div>Rhan A: Landlord Cymunedol</div> <div>Enw:</div> <div>Cyfeiriad:</div>	<div>Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract</div> <div>Enw(au):</div>
---	---

<div>Rhan C: Annedd</div> <div>Cyfeiriad:</div>

<div>Rhan D: Hysbysiad o Contract Safonol</div> <div>Mae'r landlord cymunedol, gan ddibynnu ar y paragraff a ganlyn o Atodlen 3 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, yn rhoi hysbysiad o dan adran 13 o'r Ddeddf honno fod y contract meddiannaeth yn contract safonol.</div> <div>Ticiwch fel y bo'n gymwys er mwyn dangos pa baragraff o Atodlen 3 y dibynnir arno.</div> <div><div><div>1. Contractau meddiannaeth drwy hysbysiad</div><div>2. Llety â chymorth</div><div>3. Meddiannaeth ragarweiniol</div><div>4. Llety i geiswyr lloches, etc.</div><div>5. Diddymwyd – nid yw'n gymwys</div></div><div><div>9. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: y gwasanaethau tân ac achub</div><div>10. Llety myfyrwyr</div><div>11. Llety dros dro: tir sydd wedi ei gaffael ar gyfer datblygu</div><div>12. Llety dros dro: personau sy'n dechrau gwaith</div><div>13. Llety dros dro: trefniadau tymor byr</div></div></div>	
---	--

6. Llety i bersonau digartref	<input type="checkbox"/>	14. Llety dros dro: llety yn ystod gwaith	<input type="checkbox"/>
7. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: cyffredinol	<input type="checkbox"/>	15. Llety nad yw'n llety cymdeithasol	<input type="checkbox"/>
8. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: yr heddlu	<input type="checkbox"/>	16. Anheddau a fwriedir ar gyfer trosglwyddo	<input type="checkbox"/>

Rhan E: Hawl i Adolygiad

Cewch chi, ddeiliad y contract, wneud cais i'r llys sirol am adolygiad o benderfyniad y landlord cymunedol i roi'r hysbysiad hwn gan nodi bod y contract meddiannaeth yn contract safonol.

Rhaid gwneud y cais o fewn 14 o ddiwrnodau i'r dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad hwn i chi gan y landlord.

Rhan F: Llofnod

Llofnodwyd gan y landlord cymunedol, neu ar ei ran: Dyddiad:

.....

.....

Rheoliad 5

FFURFLEN RHW2

Gwybodaeth Cychwyn

I43 Atod. Pt. 2 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

Ffurflen RHW2

HYSBYSIAD O GYFEIRIAD Y LANDLORD

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract o dan adran 39(1) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 o gyfeiriad y ceir anfon dogfennau a fwriedir ar gyfer y landlord iddo.

Rhan A: Landlord	Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract
Enw:	Enw(au):
Cyfeiriad:	
Rhan C: Annedd	
Cyfeiriad:	
Rhan D: Hysbysiad o Gyfeiriad y Landlord	
Cyfeiriad:	
Dyma'r cyfeiriad y cewch chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, anfon dogfennau a fwriedir ar gyfer y landlord iddo.	
Rhan E: Llofnod	
Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad:
.....

Rheoliad 6

FFURFLEN RHW3

Gwybodaeth Cychwyn

I44 Atod. Pt. 3 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Ffurflen RHW3

HYSBYSIAD BOD Y LANDLORD WEDI NEWID A HYSBYSIAD O GYFEIRIAD Y LANDLORD NEWYDD

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord newydd i roi hysbysiad i ddeiliad contract o dan adran 39(2) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod y landlord wedi newid, ac ynghylch y cyfeiriad y ceir anfon dogfennau a fwriedir ar gyfer y landlord newydd iddo.

Rhan A: Landlord Blaenorol	Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract
Enw: Cyfeiriad:	Enw(au):

Rhan C: Annedd
Cyfeiriad:

Rhan D: Hysbysiad bod y Landlord wedi Newid a Hysbysiad o Gyfeiriad y Landlord Newydd
Mae landlord yr annedd uchod wedi newid. Dyma fanylion y landlord newydd: Enw: Cyfeiriad: Dyma'r cyfeiriad y cewch chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, anfon dogfennau a fwriedir ar gyfer y landlord newydd iddo.

Rhan E: Llofnod	
Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran: 	Dyddiad:

Rheoliad 7

FFURFLEN RHW4

Gwybodaeth Cychwyn

I45 Atod. Pt. 4 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

Ffurflen RHW4

HYSBYSIAD O NEWID CYFEIRIAD Y LANDLORD

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract o dan adran 39(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 o newid i'r cyfeiriad y ceir anfon dogfennau a fwriedir ar gyfer y landlord iddo.

Rhan A: Landlord Enw: Cyfeiriad:	Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract Enw(au):
Rhan C: Annedd	
Cyfeiriad:	
Rhan D: Hysbysiad o Newid i Gyfeiriad Landlord	
Mae cyfeiriad y landlord wedi newid. Cyfeiriad Newydd: Dyma'r cyfeiriad y cewch chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, anfon dogfennau a fwriedir ar gyfer y landlord iddo.	
Rhan E: Llofnod	
Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad:
.....

Rheoliad 8

FFURFLEN RHW5

Gwybodaeth Cychwyn

I46 Atod. Pt. 5 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Ffurflen RHW5

HYSBYSIAD O'R AMODAU A OSODIR GAN Y PRIF LANDLORD WRTH GYDSYNIO I GONTRACT ISFEDDIANNAETH

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan ddeiliad contract i roi hysbysiad i isddeiliad arfaethedig o dan adran 61(2) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 o'r amodau a osodir gan y prif landlord.

Rhan A: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract <i>Darpar landlord neu landlordiaid i'r isddeiliad neu'r isddeiliaid</i>	Rhan B: Isddeiliad neu Isddeiliaid Arfaethedig
Enw(au): Cyfeiriad:	Enw(au): Cyfeiriad:
Rhan C: Annedd	Rhan D: Prif Landlord
Cyfeiriad:	Enw:
Rhan E: Hysbysiad o'r Amodau a Osodir gan y Prif Landlord	
Mae'r prif landlord wedi cydsynio i ddeiliad neu ddeiliaid y contract ymrwymo i contract isfeddiannaeth i'r annedd uchod yn ddarostyngedig i'r amodau a ganlyn: <i>Nodwch yr amodau yn glir.</i>	
Rhan F: Llofnod	
Llofnodwyd gan ddeiliad y contract: 	Dyddiad:

Rheoliad 9

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

FFURFLEN RHW6

Gwybodaeth Cychwyn

- I47** Atod. Pt. 6 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Ffurflen RHW6

HYSBYSIAD O BENDERFYNIAD Y PRIF LANDLORD I DRIN CONTRACT ISFEDDIANNAETH FEL CONTRACT SAFONOL CYFNODOL

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan y prif landlord i roi hysbysiad i ddeiliad y contract a'r isddeiliad o dan adran 61(7) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 o'r penderfyniad i drin y contract isfeddiannaeth fel contract safonol cyfnodol.

Rhan A: Prif Landlord	Rhan B: Deiliad neu Ddeiliad y Contract <i>Landlord neu landlordiaid i'r isddeiliad neu'r isddeiliad</i>
Enw:	Enw(au):
Cyfeiriad:	Cyfeiriad:
Rhan C: Isddeiliad neu Isddeiliad	Rhan D: Anedd
Enw(au):	Cyfeiriad:
Rhan E: Hysbysiad o Benderfyniad y Prif Landlord i Drin Contract Isfeddiannaeth fel Contract Safonol Cyfnodol	
<p>Mae'r prif landlord wedi penderfynu, yn unol ag adran 61(6) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, trin contract isfeddiannaeth yr anedd uchod fel contract safonol cyfnodol sydd â'r nodweddion a ganlyn:</p> <p>(a) mae'r holl ddarpariaethau sylfaenol ac atodol sy'n gymwys i gontract safonol cyfnodol wedi eu hymgorffori heb eu haddasu,</p> <p>(b) nid yw unrhyw un neu ragor o delerau'r contract sy'n anghydawns â'r darpariaethau sylfaenol neu atodol y cyfeirir atynt yn (a) yn cael effaith, ac</p> <p>(c) fel arall, mae telerau'r contract yr un fath.</p>	
Rhan F: Llofnod	
Llofnodwyd gan y prif landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad:
.....

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

FFURFLEN RHW7

Gwybodaeth Cychwyn

I48 Atod. Pt. 7 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Ffurflen RHW7

HYSBYSIAD I'R ISDDEILIAD O HAWLIAD MEDDIANT YN ERBYN DEILIAD Y CONTRACT

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan brif landlord i roi hysbysiad i'r isddeiliad o dan adran 64(2) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 o fwriad y prif landlord i ddod ag achos adennill meddiant yn erbyn deiliad y contract.

Rhan A: Prif Landlord	Rhan B: Isddeiliad neu Isddeiliaid
Enw: Cyfeiriad:	Enw(au):
Rhan C: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract <i>Landlord neu landlordiaid i'r isddeiliad neu'r isddeiliaid</i>	Rhan D: Annedd
Enw(au): Cyfeiriad:	Cyfeiriad:
Rhan E: Hysbysiad o Hawliad Meddiant yn Erbyn Deiliad y Contract	
<p>Mae'r prif landlord yn rhoi hysbysiad i chi, yr isddeiliad, yn unol ag adran 64(2) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, o fwriad y prif landlord i wneud hawliad meddiant yn erbyn eich landlord neu landlordiaid, sef deiliad neu ddeiliaid contract yr annedd uchod, ar y seiliau a ganlyn:</p> <p><i>Nodwch y seiliau yn glir.</i></p>	
Rhan F: Llofnod	
Llofnodwyd gan y prif landlord, neu ar ei ran: 	Dyddiad:

Rheoliad 11

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

FFURFLEN RHW8

Gwybodaeth Cychwyn

I49 Atod. Pt. 8 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Ffurflen RHW8

HYSBYSIAD O HAWLIAD ADENNILL MEDDIANT ESTYNEDIG YN ERBYN YR ISDDEILIAD

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan brif landlord i roi hysbysiad i'r isddeiliad o dan adran 65(3)(b) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 o fwriad y landlord i wneud cais am hawliad adennill meddiant estynedig yn erbyn yr isddeiliad mewn achos hawliad meddiant yn erbyn deiliad y contract.

<p style="text-align: center;">Rhan A: Prif Landlord</p> <p>Enw:</p> <p>Cyfeiriad:</p>	<p style="text-align: center;">Rhan B: Isddeiliad neu Isddeiliaid</p> <p>Enw(au):</p>				
<p style="text-align: center;">Rhan C: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract <i>Landlord neu landlordiaid i'r isddeiliad</i></p> <p>Enw(au):</p> <p>Cyfeiriad:</p>	<p style="text-align: center;">Rhan D: Annedd</p> <p>Cyfeiriad:</p>				
<p style="text-align: center;">Rhan E: Hysbysiad o Hawliad Adennill Meddiant Estynedig yn Erbyn yr Isddeiliad</p> <p>Mae'r prif landlord yn rhoi hysbysiad i chi, yr isddeiliad, yn unol ag adran 65(3)(b) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, fod y prif landlord yn bwriadu gwneud cais i'r llys am orchymyn adennill meddiant estynedig yn eich erbyn chi, yr isddeiliad, yn yr achos ar yr hawliad yn erbyn eich landlord neu landlordiaid presennol, sef deiliad neu ddeiliaid contract yr annedd uchod.</p> <p>Mae gennych chi, yr isddeiliad, yr hawl i fod yn barti i'r achos ar yr hawliad adennill meddiant yn erbyn deiliad neu ddeiliaid y contract.</p>					
<p style="text-align: center;">Rhan F: Llofnod</p> <table style="width: 100%;"> <tr> <td style="width: 50%;">Llofnodwyd gan y prif landlord, neu ar ei ran:</td> <td style="width: 50%;">Dyddiad:</td> </tr> <tr> <td>.....</td> <td>.....</td> </tr> </table>		Llofnodwyd gan y prif landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad:
Llofnodwyd gan y prif landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad:				
.....				

Canllawiau ar gyfer isddeiliad neu isddeiliaid

Mae'r prif landlord yn gwneud cais i'r llys am orchymyn adennill meddiant yn erbyn eich landlord. Mae'r hysbysiad hwn yn dweud bod y prif landlord yn bwriadu estyn yr hawliad adennill meddiant i chi. Gallai fod yn ofynnol i chi drwy orchymyn llys ildio meddiant o'r annedd a restrir yn Rhan D.

Os oes gennych unrhyw amheuan neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch unrhyw agwedd ar yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch landlord yn y lle cyntaf. Gall llawer o broblemau gael eu datrys yn gyflym drwy eu codi'n syth. Os na allwch ddod i gytundeb â'ch landlord, efallai y byddwch am gysylltu ag asiantaeth

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

gynghori (megis Cyngor ar Bopeth Cymru neu Shelter Cymru) neu gynghorwyr cyfreithiol annibynnol. Os ydych yn credu eich bod yn wynebu'r risg o fod yn ddigartref o ganlyniad i gael yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i gael cymorth.

Rheoliad 12

FFURFLEN RHW9

Gwybodaeth Cychwyn

I50 Atod. Pt. 9 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Ffurflen RHW9

HYSBYSIAD O WAHARDDIAD POSIBL DEILIAD Y CONTRACT AR ÔL CEFNU AR Y PRIF GONTRACT A'R CONTRACT ISFEDDIANNAETH

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan isddeiliad i roi hysbysiad i ddeiliad y contract o dan adran 66(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod yr isddeiliad yn credu nad yw deiliad y contract mwyach yn ystyried ei fod yn barti i'r prif gontract neu'r contract isfeddiannaeth.

<p style="text-align: center;">Rhan A: Isddeiliad</p> <p>Enw:</p>	<p style="text-align: center;">Rhan B: Deiliad y Contract <i>Landlord i'r isddeiliad</i></p> <p>Enw:</p> <p>Cyfeiriad:</p>
<p style="text-align: center;">Rhan C: Prif Landlord</p> <p>Enw:</p> <p>Cyfeiriad:</p> <p><i>Rhaid i'r isddeiliad roi copi o'r hysbysiad hwn i'r prif landlord.</i></p>	<p style="text-align: center;">Rhan D: Annedd</p> <p>Cyfeiriad:</p>

Rhan E: Hysbysiad o Gred bod Deiliad y Contract wedi Cefnu ar y Contractau

Yr wyf i, yr isddeiliad, yn rhoi hysbysiad yn unol ag adran 66(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi 2016, o'm cred nad ydych chi, ddeiliad y contract, yn ystyried mwyach eich bod yn barti i brif gontract a chontract isfeddiannaeth yr annedd uchod.

Rhaid i chi, ddeiliad y contract, roi gwybod i mi, yr isddeiliad, yn ysgrifenedig cyn diwedd [dyddiad] os ydych yn ystyried eich bod yn barti i un o'r contractau hynny, neu i'r ddau ohonynt. Ar ôl y dyddiad hwn, caniateir i'r prif gontract gael ei derfynu a chaniateir i'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau chi, ddeiliad y contract, o dan y contract isfeddiannaeth gael eu trosglwyddo i'r prif landlord a enwir yn Rhan C.

Sylwer: Rhaid i'r dyddiad a bennir fod bedair wythnos o'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad hwn i ddeiliad y contract.

Rhan F: Llofnod	
Llofnodwyd gan yr isddeiliad:	Dyddiad:
.....

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

FFURFLEN RHW10

Gwybodaeth Cychwyn

I51 Atod. Pt. 10 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Ffurflen RHW10

FFURF TROSGLWYDDIAD: TROSGLWYDDIAD CONTRACT MEDDIANNAETH GAN DDEILIAD CONTRACT

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan ddeiliad contract i drosglwyddo contract meddiannaeth o dan adran 69(1)(a) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

Rhan A: Deiliad y Contract <i>Y Trosglwyddwr</i>	Rhan B: Y Person y Trosglwyddir y Contract Meddiannaeth Iddo <i>Y Trosglwyddai</i>
Enw:	Enw:
Cyfeiriad:	Cyfeiriad:

Rhan C: Landlord	Rhan D: Annedd
Enw:	Cyfeiriad:
Cyfeiriad:	

Rhan E: Trosglwyddo
Ar [dyddiad], mae'r trosglwyddwr a enwir yn Rhan A yn trosglwyddo contract meddiannaeth yr annedd uchod i'r trosglwyddai a enwir yn Rhan B.

Rhan F: Llofnodwyr
Llofnodwyd neu cwblhawyd gan y trosglwyddwr: Dyddiad:
Llofnodwyd neu cwblhawyd gan y trosglwyddai: Dyddiad:

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

Rhan F: Llofnodwyr (parhad)
<p>Llofnodwyd neu cwblhawyd gan y landlord (os yw'n ofynnol):</p> <p>.....</p> <p>Dyddiad:</p> <p>.....</p> <p><i>Sylwer: Bydd y contract meddiannaeth yn nodi a oes angen i'r landlord gydsynio i'r trosglwyddiad hwn. Mae amgylchiadau pan fo'r landlord yn cael ei drin fel pe bai wedi cydsynio, fel a nodir yn adran 84 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.</i></p>

Rheoliad 14

FFURFLEN RHW11

Gwybodaeth Cychwyn

I52 Atod. Pt. 11 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Ffurflen RHW11

FFURF TROSLWYDDIAD: TROSLWYDDIAD O HAWLIAU A RHWYMEDIGAETHAU O DAN GONTRACT MEDDIANNAETH GAN GYD- DDEILIAD CONTRACT

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan gyd-ddeiliad contract i drosglwyddo ei hawliau a'i rwymedigaethau o dan gontract meddiannaeth o dan adran 69(1)(b) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

Rhan A: Cyd-ddeiliad Contract <i>Y Trosglwyddwr</i>	Rhan B: Y Person y Trosglwyddir yr Hawliau a'r Rhwymedigaethau Iddo o dan y Contract Meddiannaeth <i>Y Trosglwyddai</i>
Enw:	Enw:
Cyfeiriad:	Cyfeiriad:

Rhan C: Landlord	Rhan D: Annedd
Enw:	Cyfeiriad:
Cyfeiriad:	

Rhan E: Trosglwyddo
Ar [dyddiad], mae'r trosglwyddwr a enwir yn Rhan A yn trosglwyddo ei hawliau a'i rwymedigaethau o dan gontract meddiannaeth yr annedd uchod i'r trosglwyddai a enwir yn Rhan B.

Rhan F: Llofnodwyr
Llofnodwyd neu cwblhawyd gan y trosglwyddwr: Dyddiad:
Llofnodwyd neu cwblhawyd gan y trosglwyddai: Dyddiad:

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

.....
Rhan F: Llofnodwyr (parhad)
<p>Llofnodwyd neu cwblhawyd gan y landlord (os yw'n ofynnol):</p> <p>.....</p> <p>Dyddiad:</p> <p>.....</p> <p><i>Sylwer: Bydd y contract meddiannaeth yn nodi a oes angen i'r landlord gydsynio i'r trosglwyddiad hwn. Mae amgylchiadau pan fo'r landlord yn cael ei drin fel pe bai wedi cydsynio, fel a nodir yn adran 84 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.</i></p>

Rheoliad 15

FFURFLEN RHW12

Gwybodaeth Cychwyn

I53 Atod. Pt. 12 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

HYSBYSIAD O AMRYWIO'R RHENT

<p style="text-align: center;">Rhan A: Y Math o Contract Meddiannaeth</p> <p style="text-align: center;"><i>Ticiwch fel y bo'n gymwys.</i></p> <p>Contract diogel <input type="checkbox"/></p> <p>Contract safonol cyfnodol <input type="checkbox"/></p>	<p style="text-align: center;">Rhan B: Landlord</p> <p>Enw:</p> <p>Cyfeiriad:</p>
<p style="text-align: center;">Rhan C: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract</p> <p>Enw(au):</p>	<p style="text-align: center;">Rhan D: Annedd</p> <p>Cyfeiriad:</p>

Rhan E: Hysbysiad o Amrywio'r Rhent

Mae'r rhent sy'n daladwy o dan contract meddiannaeth yr annedd uchod i'w amrywio.

Bydd y rhent sy'n daladwy o yn yr/y
[dyddiad] [swm] [e.e. wythnos/mis/blwyddyn]

Mae hyn yn disodli'r rhent presennol o yr/y
[swm] [e.e. wythnos/mis/blwyddyn]

Sylwer: Ni chaiff y dyddiad a bennir y mae'r rhent newydd yn daladwy ohono fod yn llai na dau fis o'r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad hwn. Ni chaiff yr hysbysiad hwn bennu dyddiad y mae'r rhent newydd yn daladwy ohono sydd o fewn blwyddyn i'r dyddiad pan gafodd amrywiad rhent blaenorol effaith.

Rhan F: Llofnod	
<p>Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:</p> <p>.....</p>	<p>Dyddiad:</p> <p>.....</p>

Mae'r hysbysiad hwn yn eich hysbysu y bydd angen talu rhent newydd o'r dyddiad a restrir yn Rhan E. Os oes amoch angen cyngor ynghylch unrhyw agwedd ar yr hysbysiad hwn neu os ydych yn poeni na fydd modd i chi dalu eich rhent, dylech gysylltu â'ch landlord yn y lle cyntaf. Gall llawer o broblemau gael eu datrys yn gyflym drwy eu codi'n syth. Os na allwch ddod i gytundeb â'ch landlord, efallai y byddwch am gysylltu ag asiantaeth gynghori (megis Cyngor ar Bopeth Cymru neu Shelter Cymru) neu gynghorwyr cyfreithiol annibynnol.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffuriau Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

Dylech wneud trefniadau i dalu'r rhent newydd. Os ydych yn defnyddio archeb sefydlog i dalu drwy eich banc, dylech roi gwybod i'r banc fod y swm wedi newid. Dylech hefyd roi gwybod i'ch swyddfa Budd-dal Tai yn eich awdurdod lleol os ydych yn hawlio budd-dal, neu'r Adran Gwaith a Phensiynau os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol.

Rheoliad 16

FFURFLEN RHW13

Gwybodaeth Cychwyn

I54 Atod. Pt. 13 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Ffurflen RHW13

HYSBYSIAD O DROSLWYDDIAD O HAWLIAU A RHWYMEDIGAETHAU O DAN GONTRACT SAFONOL CYFNOD PENODOL GAN GYD-DDEILIAD CONTRACT

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan gyd-ddeiliad contract ("cyd-ddeiliad contract A") i roi hysbysiad i'r cyd-ddeiliad contract arall neu'r cyd-ddeiliaid contract eraill ("cyd-ddeiliad neu gyd-ddeiliaid contract B") o dan adran 141(2) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 y bydd hawliau a rhwymedigaethau cyd-ddeiliad contract A o dan contract safonol cyfnod penodol yn cael eu trosglwyddo.

<p>Rhan A: Cyd-ddeiliad Contract A <i>Y Trosglwyddwr</i></p> <p>Enw:</p>	<p>Rhan B: Cyd-ddeiliad neu Gyd-ddeiliaid Contract B</p> <p>Enw(au):</p>				
<p>Rhan C: Y Person y Trosglwyddir Hawliau a Rhwymedigaethau A Iddo <i>Y Trosglwyddai</i></p> <p>Enw:</p> <p>Cyfeiriad:</p>	<p>Rhan D: Annedd</p> <p>Cyfeiriad:</p>				
<p>Rhan E: Landlord</p> <p>Enw:</p> <p>Cyfeiriad:</p>					
<p>Rhan F: Hysbysiad o Drosglwyddiad</p> <p>Yr wyf i, gyd-ddeiliad contract A, yn rhoi hysbysiad i chi, gyd-ddeiliad neu gyd-ddeiliaid contract B, y gwneir trosglwyddiad o'm hawliau a'm rhwymedigaethau o dan contract meddiannaeth safonol cyfnod penodol yr annedd uchod i'r person a enwir yn Rhan C.</p>					
<p>Rhan G: Llofnod</p> <table style="width: 100%;"> <tr> <td style="width: 50%;">Llofnodwyd gan gyd-ddeiliad contract A:</td> <td style="width: 50%;">Dyddiad:</td> </tr> <tr> <td>.....</td> <td>.....</td> </tr> </table>		Llofnodwyd gan gyd-ddeiliad contract A:	Dyddiad:
Llofnodwyd gan gyd-ddeiliad contract A:	Dyddiad:				
.....				

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

FFURFLEN RHW14

Gwybodaeth Cychwyn

I55 Atod. Pt. 14 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Ffurflen RHW14

HYSBYSIAD O DROSLWYDDIAD O HAWLIAU A RHWYMEDIGAETHAU O DAN CONTRACT SAFONOL CYFNOD PENODOL AR FARWOLAETH CYD-DDEILIAD CONTRACT

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan gyd-ddeiliad contract ("cyd-ddeiliad contract A") o gontract safonol cyfnod penodol i roi hysbysiad o dan adran 142(2) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i'r cyd-ddeiliad contract arall neu'r cyd-ddeiliaid contract eraill ("cyd-ddeiliad neu gyd-ddeiliaid contract B") y bydd hawliau a rhwymedigaethau cyd-ddeiliad contract A yn cael eu trosglwyddo o dan y contract meddiannaeth ar ei farwolaeth.

Rhan A: Cyd-ddeiliad Contract A <i>Y Trosglwyddwr</i> <hr/> Enw:	Rhan B: Cyd-ddeiliad neu Gyd-ddeiliaid Contract B <hr/> Enw(au):
Rhan C: Y Person y Trosglwyddir Hawliau a Rhwymedigaethau A Iddo ar Farwolaeth A <i>Y Trosglwyddai Bwriedig</i> <hr/> Enw:	Rhan D: Annedd <hr/> Cyfeiriad:
Rhan E: Landlord <hr/> Enw: Cyfeiriad:	
Rhan F: Hysbysiad o Drosglwyddiad <hr/> Yr wyf i, gyd-ddeiliad contract A, yn rhoi hysbysiad i chi, gyd-ddeiliad neu gyd-ddeiliaid contract B, y bydd fy hawliau a'm rhwymedigaethau o dan contract meddiannaeth yr annedd uchod, ar fy marwolaeth, yn cael eu trosglwyddo wrth weinyddu fy ystad i'r person a enwir yn Rhan C.	
Rhan G: Llofnod <hr/> Llofnodwyd gan gyd-ddeiliad contract A: Dyddiad:	

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

FFURFLEN RHW15

Gwybodaeth Cychwyn

I56 Atod. Pt. 15 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Ffurflen RHW15

HYSBYSIAD O WAHARDD DROS DRO: CONTRACT SAFONOL Â CHYMORTH

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord cymunedol neu elusen gofrestredig i roi hysbysiad i ddeiliad contract safonol â chymorth adael yr annedd dros dro o dan adran 145(4) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

Rhaid rhoi'r ffurflen hon i ddeiliad y contract y mae'n ofynnol iddo adael yr annedd ar yr adeg pan fo'r landlord yn ei gwneud yn ofynnol iddo adael neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny.

Rhan A: Landlord	Rhan B: Deiliad y Contract
Enw:	Enw:
Cyfeiriad:	

Rhan C: Annedd
Cyfeiriad:

Rhan D: Hysbysiad o Wahardd Dros Dro
Mae'r landlord yn credu'n rhesymol eich bod chi, ddeiliad y contract, wedi gwneud un neu ragor o'r gweithredoedd a ganlyn: <i>Ticiwch fel y bo'n gymwys.</i>
<input type="checkbox"/> Defnyddio trais yn erbyn unrhyw berson yn yr annedd
<input type="checkbox"/> Gwneud rhywbeth yn yr annedd sy'n creu risg o niwed sylweddol i unrhyw berson
<input type="checkbox"/> Ymddwyn yn yr annedd mewn ffordd sy'n amharu'n ddifrifol ar allu preswlydd arall mewn llety â chymorth a ddarperir gan y landlord i fanteisio ar y cymorth a ddarperir mewn cysylltiad â'r llety hwnnw
Dyma fanylion y weithred neu'r gweithredoedd: <i>Nodwch y manylion yn glir.</i>

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

Rhan D: Hysbysiad o Wahardd Dros Dro (parhad)
Mae'r landlord yn ei gwneud yn ofynnol i chi, ddeiliad y contract, adael yr annedd dros dro ar [amser a dyddiad y gwaharddiad] am y cyfnod a bennir isod.
Cyfnod y gwaharddiad: [nifer yr oriau a'r munudau hyd at uchafswm o 48 awr]
Cewch ddychwelyd i'r annedd ar [amser a dyddiad dychwelyd]
Ni chaiff y landlord ddefnyddio'r pŵer i'ch eithrio fwy na thair gwaith mewn unrhyw gyfnod o chwe mis.
Dyma'r gwaharddiad cyntaf mewn cyfnod o chwe mis neu Dyma'r ail gyfnod gwahardd/Dyma'r trydydd cyfnod gwahardd [dilŵch fel y bo'n gymwys] yn y cyfnod a ddechreuodd ar [dyddiad y gwaharddiad cyntaf]
<i>Sylwer: Dylai'r landlord ddarparu gwybodaeth i ddeiliad y contract a fydd yn ei gynorthwyo i gael mynediad at Wasanaethau Cyngor ar Ddigartrefedd a hosteli/llochesau lleol. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gan y landlord fod mewn fformat sy'n briodol i ddeiliad y contract.</i>

Rhan E: Llofnod	
Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad ac amser y llofnod:
.....

Rheoliad 19

FFURFLEN RHW16

Gwybodaeth Cychwyn

I57 Atod. Pt. 16 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler **rhl. 1** (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Ffurflen RHW16

HYSBYSIAD Y LANDLORD O DERFYNU: CONTRACT SAFONOL CYFNODOL GYDA CHYFNOD HYSBYSU BYRRAF A GANIATEIR O CHWE MIS (HEBLAW CONTRACT SAFONOL RHAGARWEINIOL NEU GONTRACT SAFONOL YMDDYGIAD GWAHARDDedig)

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract safonol cyfnodol sydd â'r hawl i gyfnod hysbysu byrraf a ganiateir o chwe mis (heblaw deiliad contract safonol rhagarweiniol neu gontract safonol ymddygiad gwaharddedig) o dan adran 173(1) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod rhaid iddo ildio meddiant o'r annedd ar ddyddiad penodedig.

Rhan A: Landlord	Rhan B: Deiliad neu Ddeiliad y Contract
Enw:	Enw(au):
Cyfeiriad:	

Rhan C: Annedd
Cyfeiriad:

Rhan D: Hysbysiad i Ildio Meddiant
Yn unol ag adran 173 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, mae'r landlord yn rhoi hysbysiad i chi, ddeiliad neu ddeiliad y contract, fod rhaid i chi ildio meddiant o'r annedd uchod ar [dyddiad]
Os nad ydych chi, ddeiliad neu ddeiliad y contract, yn ildio meddiant o'r annedd ar y dyddiad a bennir uchod, caiff y landlord wneud hawliad meddiant i'r llys.
<i>Sylwer: Ni chaiff y dyddiad penodedig fod yn llai na chwe mis ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad hwn i ddeiliad neu ddeiliad y contract.</i>

Rhan E: Llofnod	
Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad:
.....

Defnyddio'r ffurflen hon

Ni ddylid defnyddio'r ffurflen hon ond pan fo gan y contract safonol cyfnodol gyfnod hysbysu byrraf a ganiateir o chwe mis ac nad yw'n gontract safonol rhagarweiniol neu'n gontract safonol ymddygiad gwaharddedig. Os oes gan y contract safonol cyfnodol gyfnod hysbysu byrraf a ganiateir o ddau fis, dylid defnyddio **Ffurflen RHW17**.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

Os yw'r contract safonol cyfnodol yn contract safonol rhagarweiniol neu'n contract safonol ymddygiad gwaharddedig, dylid defnyddio **Ffurflen RHW18**, ni waeth faint yw hyd y cyfnod hysbysu.

Canllawiau i ddeiliad contract

Yr hysbysiad hwn yw'r cam cyntaf sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ildio meddiant o'r annedd a nodir yn Rhan C. Dylech ei ddarllen yn ofalus iawn. Os nad ydych yn ildio meddiant erbyn y dyddiad a roddir yn Rhan D, caiff eich landlord wneud cais i'r llys am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ildio meddiant.

Os oes gennych unrhyw amheuan neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch unrhyw agwedd ar yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch landlord yn y lle cyntaf. Gall llawer o broblemau gael eu datrys yn gyflym drwy eu codi'n syth. Os na allwch ddod i gytundeb â'ch landlord, efallai y byddwch am gysylltu ag asiantaeth gyngori (megis Cyngor ar Bopeth Cymru neu Shelter Cymru) neu gynghorwyr cyfreithiol annibynnol. Mae'n bosibl mai drwy'r llysoedd sirol y caiff anghydfodau ynghylch eich contract eu setlo yn y pen draw. Os ydych yn credu eich bod yn wynebu'r risg o fod yn ddigartref o ganlyniad i gael yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i gael cymorth.

Cyfngiadau ar roi'r hysbysiad hwn

Chwe mis cyntaf meddiannaeth

Yn unol ag adran 175 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn o fewn y chwe mis cyntaf i ddyddiad meddiannu'r contract. Os yw'r contract yn contract meddiannaeth sy'n cymryd lle contract arall (fel y'i diffiniwyd yn adran 175(3) o'r Ddeddf honno), ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn o fewn y chwe mis cyntaf i ddyddiad meddiannu'r contract gwreiddiol. Nid yw'r cyfyngiad hwn yn gymwys os yw'r contract meddiannaeth yn dod o fewn Atodlen 9 i'r Ddeddf honno:

- | | |
|---|--|
| 1. Contractau safonol ymddygiad gwaharddedig | 7. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd |
| 2. Tenantiaethau a thrwyddedau sy'n contractau meddiannaeth oherwydd hysbysiad a roddir o dan Ran 2 o Atodlen 2 | 8. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: yr heddlu |
| 3. Llety â chymorth | 9. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: y gwasanaethau tân ac achub |
| 4. Llety i geiswyr lloches, etc. | 10. Llety dros dro: tir sydd wedi ei gaffael ar gyfer datblygu |
| 5. Diddymwyd – nid yw'n gymwys | 11. Llety dros dro: trefniadau tymor byr |
| 6. Llety i bersonau digartref | 12. Llety dros dro: llety yn ystod gwaith |

Torri rhwymedigaethau statudol

Yn unol ag adran 176 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn ar adeg pan fo unrhyw rwymedigaethau statudol a restrir yn Atodlen 9A i'r Ddeddf honno wedi eu torri:

1. Methu â darparu datganiad ysgrifenedig;
2. Cyfyngiad o chwe mis yn dilyn methu â darparu datganiad ysgrifenedig o fewn y cyfnod a bennir yn adran 31 (o'r Ddeddf honno);
3. Methu â darparu gwybodaeth;
- 3A. Methu â darparu tystysgrif perfformiad ynni ddilys;
4. Torri gofynion sicrwydd a blaendal;
5. Taliadau gwaharddedig a blaendaliadau cadw o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019;
- 5A. Methu â sicrhau bod larymau mwg a larymau carbon monocsid sy'n gweithio wedi eu gosod;
- 5B. Methu â chyflenwi adroddiad ar gyflwr trydanol etc.;
- 5C. Methu â darparu adroddiad ar ddiogelwch nwy i ddeiliad y contract.

Ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn oni chydymffurfiwyd â gofynion adran 44 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Yn unol ag adran 75 o Ddeddf Tai 2004, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn mewn perthynas â thŷ amlfeddiannaeth sydd heb drwydded yn unol â'r Ddeddf honno.

Tynnu hysbysiad blaenorol yn ôl

Yn unol ag adran 177 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, os yw'r landlord wedi rhoi hysbysiad yn flaenorol o dan adran 173 o'r Ddeddf honno ac wedi ei dynnu yn ôl wedyn, ni chaiff y landlord roi i ddeiliad neu ddeiliaid y contract hysbysiad terfynu pellach o dan adran 173 o'r Ddeddf honno o fewn cyfnod o chwe mis o'r dyddiad y tynnwyd yr hysbysiad yn ôl. Mae hyn yn ddarostyngedig i'r eithriad y caiff y landlord, o fewn 28 o ddiwrnodau i'r hysbysiad terfynu cyntaf o dan adran 173 o'r Ddeddf honno (a dynnwyd yn ôl wedyn), roi un hysbysiad terfynu pellach i ddeiliad neu ddeiliaid y contract.

Hawliad meddiant dialgar

Caiff deiliad contract orfodi neu ddibynnu ar rwymedigaethau'r landlord mewn perthynas ag annedd ffit i bobl fyw ynddi ac i gadw'r annedd mewn cyflwr da o dan adrannau 91 a 92 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Os yw'r landlord yn dyroddi'r hysbysiad hwn mewn ymateb i hynny, caiff llys ystyried bod y landlord yn gwneud hawliad meddiant i osgoi cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hynny (hawliad dialgar). Yn unol ag adran 217 o'r Ddeddf honno, caiff y llys wrthod gwneud gorchymyn adennill meddiant os yw'r llys yn ystyried bod yr hawliad meddiant yn hawliad dialgar.

Yn unol ag adran 177A o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn o fewn chwe mis i'r llys yn gwrthod gwneud gorchymyn adennill meddiant oherwydd bod y llys yn ystyried bod yr hawliad yn hawliad dialgar.

Cyfyngiadau ar ddod â hawliad meddiant

Terfynau amser

Yn unol ag adran 179 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni chaiff y landlord wneud hawliad meddiant cyn y dyddiad a restrir yn Rhan D o'r hysbysiad hwn **neu** ar ôl cyfnod o ddau fis ar ôl y dyddiad hwnnw.

Rheoliad 20

FFURFLEN RHW17

Gwybodaeth Cychwyn

I58 Atod. Pt. 17 mewn grym ar 1.12.2022, gweler **rhl. 1** (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

Ffurflen RHW17

HYSBYSIAD Y LANDLORD O DERFYNU: CONTRACT SAFONOL CYFNODOL GYDA CHYFNOD HYSBYSU BYRRAF A GANIATEIR O DDAU FIS (HEBLAW CONTRACT SAFONOL RHAGARWEINIOL NEU GONTRACT SAFONOL YMDDYGIAD GWAHARDDedig)

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract safonol cyfnodol sydd â'r hawl i gyfnod hysbysu byrraf a ganiateir o ddau fis (heblaw deiliad contract safonol rhagarweiniol neu gontract safonol ymddygiad gwaharddedig) o dan adran 173(1) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod rhaid iddo ildio meddiant o'r annedd ar ddyddiad penodedig.

Rhan A: Landlord	Rhan B: Deiliad neu Ddeiliad y Contract
Enw:	Enw(au):
Cyfeiriad:	

Rhan C: Annedd
Cyfeiriad:

Rhan D: Hysbysiad i Ildio Meddiant
Yn unol ag adran 173 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, mae'r landlord yn rhoi hysbysiad i chi, ddeiliad neu ddeiliad y contract, fod rhaid i chi ildio meddiant o'r annedd uchod ar [dyddiad]
Os nad ydych chi, ddeiliad neu ddeiliad y contract, yn ildio meddiant o'r annedd ar y dyddiad a bennir uchod, caiff y landlord wneud hawliad meddiant i'r llys.
<i>Sylwer: Ni chaff y dyddiad penodedig fod yn llai na dau fis ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad hwn i ddeiliad neu ddeiliad y contract.</i>

Rhan E: Llofnod	
Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad:
.....

Defnyddio'r ffurflen hon

Ni ddylid defnyddio'r ffurflen hon ond pan fo gan y contract safonol cyfnodol gyfnod hysbysu byrraf a ganiateir o ddau fis ac nad yw'n gontract safonol rhagarweiniol neu'n gontract safonol ymddygiad gwaharddedig. Mae canllawiau ar hyn drosodd. Os oes gan y contract safonol cyfnodol gyfnod hysbysu byrraf a ganiateir o chwe mis, dylid defnyddio **Ffurflen RHW16**.

Os yw'r contract safonol cyfnodol yn gontract safonol rhagarweiniol neu'n gontract safonol ymddygiad

gwaharddedig, dylid defnyddio **Ffurflen RHW18**, ni waeth faint yw hyd y cyfnod hysbysu.

Canllawiau i ddeiliaid contract

Yr hysbysiad hwn yw'r cam cyntaf sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ildio meddiant o'r annedd a nodir yn Rhan C. Dylech ei ddarllen yn ofalus iawn. Os nad ydych yn ildio meddiant erbyn y dyddiad a roddir yn Rhan D, caiff eich landlord wneud cais i'r llys am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ildio meddiant.

Os oes gennych unrhyw amheuan neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch unrhyw agwedd ar yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch landlord yn y lle cyntaf. Gall llawer o broblemau gael eu datrys yn gyflym drwy eu codi'n syth. Os na allwch ddod i gytundeb â'ch landlord, efallai y byddwch am gysylltu ag asiantaeth gynghori (megis Cyngor ar Bopeth Cymru neu Shelter Cymru) neu gynghorwyr cyfreithiol annibynnol. Mae'n bosibl mai drwy'r llysoedd sirol y caiff anghydfodau ynghylch eich contract eu setlo yn y pen draw. Os ydych yn credu eich bod yn wynebu'r risg o fod yn ddigartref o ganlyniad i gael yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i gael cymorth.

Cyfnod hysbysu byrraf a ganiateir o ddau fis

Gall contract meddiannaeth fod â chyfnod hysbysu byrraf a ganiateir o ddau fis oherwydd:

- a) ei fod yn contract wedi ei drosi: yn union cyn i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ddod i rym, roedd y contract meddiannaeth yn denantiaeth fyrddaliol sicr (paragraff 25A o Atodlen 12 i'r Ddeddf honno), neu
- b) mae'r contract meddiannaeth yn dod o fewn Atodlen 8A i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) (adran 174A o'r Ddeddf honno):

- | | |
|---|--|
| 1. Contractau safonol ymddygiad gwaharddedig | 7. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd |
| 2. Tenantiaethau a thrwyddedau sy'n gontractau meddiannaeth oherwydd hysbysiad a roddir o dan Ran 2 o Atodlen 2 | 8. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: yr heddlu |
| 3. Llety ar gyfer myfyrwyr mewn addysg uwch | 9. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: y gwasanaethau tân ac achub |
| 4. Llety â chymorth | 10. Llety dros dro: tir sydd wedi ei gaffael ar gyfer datblygu |
| 5. Llety i geiswyr lloches, etc. | 11. Llety dros dro: trefniadau tymor byr |
| 6. Llety i bersonau digartref | 12. Llety dros dro: llety yn ystod gwaith |

Cyfyngiadau ar roi'r hysbysiad hwn

Pedwar/chwe mis cyntaf meddiannaeth

Yn unol ag adran 175 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn o fewn y **chwe** mis cyntaf i ddyddiad meddiannu'r contract. Os oedd y contract meddiannaeth yn denantiaeth fyrddaliol sicr yn union cyn i'r Ddeddf honno ddod i rym (contract wedi ei drosi), ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn o fewn y **pedwar** mis cyntaf i ddyddiad meddiannu'r contract. Yn y naill achos neu'r llall, nid yw'r cyfyngiad hwn yn gymwys os yw'r contract meddiannaeth yn dod o fewn Atodlen 9 i'r Ddeddf honno:

- | | |
|---|--|
| 1. Contractau safonol ymddygiad gwaharddedig | 7. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd |
| 2. Tenantiaethau a thrwyddedau sy'n gontractau meddiannaeth oherwydd hysbysiad a roddir o dan Ran 2 o Atodlen 2 | 8. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: yr heddlu |
| 3. Llety â chymorth | 9. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: y gwasanaethau tân ac achub |
| 4. Llety i geiswyr lloches, etc. | 10. Llety dros dro: tir sydd wedi ei gaffael ar gyfer datblygu |
| 5. Diddymwyd – nid yw'n gymwys | 11. Llety dros dro: trefniadau tymor byr |
| 6. Llety i bersonau digartref | 12. Llety dros dro: llety yn ystod gwaith |

Torri rhwymedigaethau statudol

Yn unol ag adran 176 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn ar adeg pan fo unrhyw rwymedigaethau statudol a restrir yn Atodlen 9A i'r Ddeddf honno wedi eu torri:

- 1. Methu â darparu datganiad ysgrifenedig;
- 2. Cyfyngiad o chwe mis yn dilyn methu â darparu datganiad ysgrifenedig o fewn y cyfnod a bennir yn adran 31 (o'r Ddeddf honno);
- 3. Methu â darparu gwybodaeth;

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

- 3A. Methu â darparu tystysgrif perfformiad ynni ddilys;
 4. Torri gofynion sicrwydd a blaendal;
 5. Taliadau gwaharddedig a blaendaliadau cadw o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019;
 5A. Methu â sicrhau bod larymau mwg a larymau carbon monocsid sy'n gweithio wedi eu gosod;
 5B. Methu â chyflenwi adroddiad ar gyflwr trydanol etc.;
 5C. Methu â darparu adroddiad ar ddiogelwch nwy i ddeiliad y contract.

Ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn oni chydymffurfiwyd â gofynion adran 44 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Yn unol ag adran 75 o Ddeddf Tai 2004, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn mewn perthynas â thŷ amlfeddiannaeth sydd heb drwydded yn unol â'r Ddeddf honno.

Tynnu hysbysiad blaenorol yn ôl

Yn unol ag adran 177 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, os yw'r landlord wedi rhoi hysbysiad yn flaenorol o dan adran 173 o'r Ddeddf honno ac wedi ei dynnu yn ôl wedyn, ni chaiff y landlord roi i ddeiliad neu ddeiliad y contract hysbysiad terfynu pellach o dan adran 173 o'r Ddeddf honno o fewn cyfnod o chwe mis o'r dyddiad y tynnwyd yr hysbysiad yn ôl. Mae hyn yn ddarostyngedig i'r eithriad y caiff y landlord, o fewn 28 o ddiwrnodau i'r hysbysiad terfynu cyntaf o dan adran 173 o'r Ddeddf honno (a dynnwyd yn ôl wedyn), roi un hysbysiad terfynu pellach i ddeiliad neu ddeiliad y contract.

Hawliad meddiant dialgar

Caiff deiliad contract orfodi neu ddibynnu ar rwymedigaethau'r landlord mewn perthynas ag annedd ffit i bobl fyw ynddi ac i gadw'r annedd mewn cyflwr da o dan adrannau 91 a 92 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Os yw'r landlord yn dyroddi'r hysbysiad hwn mewn ymateb i hynny, caiff llys ystyried bod y landlord yn gwneud hawliad meddiant i osgoi cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hynny (hawliad dialgar). Yn unol ag adran 217 o'r Ddeddf honno, caiff y llys wrthod gwneud gorchymyn adennill meddiant os yw'r llys yn ystyried bod yr hawliad meddiant yn hawliad dialgar.

Yn unol ag adran 177A o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn o fewn chwe mis i'r llys yn gwrthod gwneud gorchymyn adennill meddiant oherwydd bod y llys yn ystyried bod yr hawliad yn hawliad dialgar.

Cyfyngiadau ar ddod â hawliad meddiant

Terfynau amser

Yn unol ag adran 179 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni chaiff y landlord wneud hawliad meddiant cyn y dyddiad a restrir yn Rhan D o'r hysbysiad hwn **neu** ar ôl cyfnod o ddau fis ar ôl y dyddiad hwnnw.

Rheoliad 21

FFURFLEN RHW18

Gwybodaeth Cychwyn

I59 Atod. Pt. 18 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Ffurflen RHW18

HYSBYSIAD Y LANDLORD O DERFYNU: CONTRACT SAFONOL RHAGARWEINIOL NEU GONTRACT SAFONOL YMDDYGIAD GWAHARDDDEDIG

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract safonol rhagarweiniol neu gontract safonol ymddygiad gwaharddedig o dan adran 173(1) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod rhaid iddo ildio meddiant o'r annedd ar ddyddiad penodedig.

Rhan A: Landlord	Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract
Enw: Cyfeiriad:	Enw(au):

Rhan C: Annedd
Cyfeiriad:

Rhan D: Hysbysiad i Ildio Meddiant
<p>Yn unol ag adran 173 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, mae'r landlord yn rhoi hysbysiad i chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, fod rhaid i chi ildio meddiant o'r annedd uchod ar [dyddiad]</p> <p>.....</p> <p>Os nad ydych chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, yn ildio meddiant o'r annedd ar y dyddiad a bennir uchod, caiff y landlord wneud hawliad meddiant i'r llys.</p> <p><i>Sylwer: Ar gyfer contractau safonol ymddygiad gwaharddedig, ni chaiff y dyddiad penodedig fod yn llai na dau fis ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad hwn i ddeiliad neu ddeiliaid y contract. Ar gyfer contractau safonol rhagarweiniol, ni chaiff y dyddiad penodedig fod yn llai na chwe mis ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad hwn i ddeiliad neu ddeiliaid y contract, oni bai bod y contract meddiannaeth yn dod o fewn Atodlen 8A i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ac os felly ni chaiff y dyddiad penodedig fod yn llai na dau fis ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad hwn i ddeiliad neu ddeiliaid y contract.</i></p>

Rhan E: Yr Hawl i Ofyn am Adolygiad
<p>Cewch chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract o dan adran 202(2) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ofyn bod y landlord yn adolygu'r penderfyniad i roi'r hysbysiad hwn. Rhaid gofyn i'r landlord am adolygiad erbyn [dyddiad]</p> <p><i>Sylwer: Rhaid i'r dyddiad penodedig fod o leiaf 14 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y mae'r landlord yn rhoi'r hysbysiad hwn i ddeiliad neu ddeiliaid y contract.</i></p>

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

Rhan F: Llofnod	
Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad:
.....

Canllawiau i ddeiliaid contract

Yr hysbysiad hwn yw'r cam cyntaf sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ildio meddiant o'r annedd a nodir yn Rhan C. Dylech ei ddarllen yn ofalus. Os nad ydych yn ildio meddiant erbyn y dyddiad a roddir yn Rhan D, caiff eich landlord wneud cais i'r llys am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ildio meddiant.

Os oes gennych unrhyw amheuan neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch unrhyw agwedd ar yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch landlord yn y lle cyntaf. Gall llawer o broblemau gael eu datrys yn gyflym drwy eu codi'n syth. Os na allwch ddod i gytundeb â'ch landlord, efallai y byddwch am gysylltu ag asiantaeth gynghori (megis Cyngor ar Bopeth Cymru neu Shelter Cymru) neu gynghorwyr cyfreithiol annibynnol. Os ydych yn credu eich bod yn wynebu'r risg o fod yn ddigartref o ganlyniad i gael yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i gael cymorth.

Y cyfnod hysbysu byrraf a ganiateir

Mae gan contract safonol ymddygiad gwaharddedig gyfnod hysbysu byrraf o ddau fis. Mae gan contract safonol rhagarweiniol gyfnod hysbysu byrraf a ganiateir o chwe mis, oni bai ei fod yn dod o fewn Atodlen 8A i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (gweler adran 174A) ac os felly y cyfnod hysbysu byrraf a ganiateir yw dau fis:

- | | |
|---|--|
| 1. Contractau safonol ymddygiad gwaharddedig | 7. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd |
| 2. Tenantiaethau a thrwyddedau sy'n contractau meddiannaeth oherwydd hysbysiad a roddir o dan Ran 2 o Atodlen 2 | 8. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: yr heddlu |
| 3. Llety ar gyfer myfyrwyr mewn addysg uwch | 9. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: y gwasanaethau tân ac achub |
| 4. Llety â chymorth | 10. Llety dros dro: tir sydd wedi ei gaffael ar gyfer datblygu |
| 5. Llety i geiswyr lloches, etc. | 11. Llety dros dro: trefniadau tymor byr |
| 6. Llety i bersonau digartref | 12. Llety dros dro: llety yn ystod gwaith |

Cyfyngiadau ar roi'r hysbysiad hwn

Chwe mis cyntaf deiliadaeth (contractau safonol rhagarweiniol yn unig)

Yn unol ag adran 175 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn o fewn y chwe mis cyntaf i ddyddiad meddiannu'r contract meddiannaeth safonol rhagarweiniol. Nid yw'r cyfyngiad hwn yn gymwys os yw'r contract meddiannaeth yn dod o fewn Atodlen 9 i'r Ddeddf honno:

- | | |
|---|--|
| 1. Contractau safonol ymddygiad gwaharddedig | 7. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd |
| 2. Tenantiaethau a thrwyddedau sy'n contractau meddiannaeth oherwydd hysbysiad a roddir o dan Ran 2 o Atodlen 2 | 8. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: yr heddlu |
| 3. Llety â chymorth | 9. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: y gwasanaethau tân ac achub |
| 4. Llety i geiswyr lloches, etc. | 10. Llety dros dro: tir sydd wedi ei gaffael ar gyfer datblygu |
| 5. Diddymwyd – nid yw'n gymwys | 11. Llety dros dro: trefniadau tymor byr |
| 6. Llety i bersonau digartref | 12. Llety dros dro: llety yn ystod gwaith |

Torri rhwymedigaethau statudol

Yn unol ag adran 176 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn ar adeg pan fo unrhyw rwymedigaethau statudol a restrir yn Atodlen 9A i'r Ddeddf honno wedi eu torri:

1. Methu â darparu datganiad ysgrifenedig;
2. Cyfyngiad o chwe mis yn dilyn methu â darparu datganiad ysgrifenedig o fewn y cyfnod a bennir yn adran

31 (o'r Ddeddf honno);

3. Methu â darparu gwybodaeth;

3A. Methu â darparu tystysgrif perfformiad ynni ddilys;

4. Torri gofynion sicrwydd a blaendal;

5. Taliadau gwaharddedig a blaendaliadau cadw o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019;

5A. Methu â sicrhau bod larymau mwg a larymau carbon monocsid sy'n gweithio wedi eu gosod;

5B. Methu â chyflenwi adroddiad ar gyflwr trydanol etc.;

5C. Methu â darparu adroddiad ar ddiogelwch nwy i ddeiliad y contract.

Ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn oni chydymffurfiwyd â gofynion adran 44 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Yn unol ag adran 75 o Ddeddf Tai 2004, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn mewn perthynas â thŷ amlfeddiannaeth sydd heb drwydded yn unol â'r Ddeddf honno.

Tynnu hysbysiad blaenorol yn ôl

Yn unol ag adran 177 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, os yw'r landlord wedi rhoi hysbysiad yn flaenorol o dan adran 173 o'r Ddeddf honno ac wedi ei dynnu yn ôl wedyn, ni chaiff y landlord roi i ddeiliad neu ddeiliaid y contract hysbysiad terfynu pellach o dan adran 173 o'r Ddeddf honno o fewn cyfnod o chwe mis i'r dyddiad y tynnwyd yr hysbysiad yn ôl. Mae hyn yn ddarostyngedig i'r eithriad y caiff y landlord, o fewn 28 o ddiwrnodau i'r hysbysiad terfynu cyntaf o dan adran 173 o'r Ddeddf honno (a dynnwyd yn ôl wedyn), roi un hysbysiad terfynu pellach i ddeiliad neu ddeiliaid y contract.

Hawliad meddiant dialgar

Caiff deiliad contract orfodi neu ddibynnu ar rwymedigaethau'r landlord mewn perthynas ag annedd ffit i bobl fyw ynddi ac i gadw'r annedd mewn cyflwr da o dan adrannau 91 a 92 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Os yw'r landlord yn dyroddi'r hysbysiad hwn mewn ymateb i hynny, caiff llys ystyried bod y landlord yn gwneud hawliad meddiant i osgoi cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hynny (hawliad dialgar). Yn unol ag adran 217 o'r Ddeddf honno, caiff y llys wrthod gwneud gorchymyn adennill meddiant os yw'r llys yn ystyried bod yr hawliad meddiant yn hawliad dialgar.

Yn unol ag adran 177A o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn o fewn chwe mis i'r llys yn gwrthod gwneud gorchymyn adennill meddiant oherwydd bod y llys yn ystyried bod yr hawliad yn hawliad dialgar.

Cyfngiadau ar ddod â hawliad meddiant

Terfynau amser

Yn unol ag adran 179 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni chaiff y landlord wneud hawliad meddiant cyn y dyddiad a restrir yn Rhan D o'r hysbysiad hwn **neu** ar ôl cyfnod o ddau fis ar ôl y dyddiad hwnnw.

Rheoliad 22

FFURFLEN RHW19

Gwybodaeth Cychwyn

I60 Atod. Pt. 19 mewn grym ar 1.12.2022, gweler **rhl. 1** (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

Ffurflen RHW19

HYSBYSIAD O DYNNU YN ÔL HYSBYSIAD Y LANDLORD O DERFYNU: CONTRACT SAFONOL CYFNODOL

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract o dan adran 180(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod yr hysbysiad a roddwyd yn flaenorol o dan adran 173 o'r Ddeddf honno wedi ei dynnu yn ôl.

<p>Rhan A: Landlord</p> <p>Enw:</p> <p>Cyfeiriad:</p>	<p>Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract</p> <p>Enw(au):</p>
<p>Rhan C: Annedd</p> <p>Cyfeiriad:</p>	
<p>Rhan D: Tynnu yn Ôl yr Hysbysiad i Ildio Meddiant</p> <p>Ar [dyddiad] rhoddodd y landlord hysbysiad o dan adran 173 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ei bod yn ofynnol i chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, ildio meddiant o'r annedd ar [dyddiad]</p> <p>Mae'r landlord yn awr yn rhoi hysbysiad pellach o dan adran 180(3) o'r Ddeddf honno fod yr hysbysiad blaenorol y cyfeirir ato uchod wedi ei dynnu yn ôl. Os rhoddir yr hysbysiad hwn ar ôl 28 o ddiwrnodau i ddyddiad yr hysbysiad blaenorol, cewch chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, wrthwynebu mewn ysgrifen i'r tynnu yn ôl o fewn cyfnod rhesymol.</p> <p>Rhaid rhoi'r hysbysiad hwn cyn i'r contract meddiannaeth ddod i ben.</p>	
<p>Rhan E: Yr Hawl i Wrthwynebu'r Tynnu yn Ôl</p> <p><i>Ticiwch fel y bo'n gymwys.</i></p> <p><input type="checkbox"/> Darperir yr hysbysiad hwn yn ystod y 28 o ddiwrnodau o ddyddiad yr hysbysiad blaenorol o dan adran 173 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Ni chewch chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, wrthwynebu tynnu yn ôl yr hysbysiad hwnnw.</p> <p><input type="checkbox"/> Darperir yr hysbysiad hwn ar ôl 28 o ddiwrnodau i ddyddiad yr hysbysiad blaenorol o dan adran 173 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Cewch chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, wrthwynebu tynnu yn ôl yr hysbysiad hwnnw. Rhaid i unrhyw wrthwynebiad fod mewn ysgrifen, a rhaid ei ddysroddi i'r landlord cyn diwedd cyfnod rhesymol.</p>	

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

Rhan F: Llofnod	
Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad:
.....

Defnyddio'r ffurflen hon

Dylid defnyddio'r ffurflen hon ar gyfer pob contract safonol cyfnodol, gan gynnwys contractau safonol rhagarweiniol neu contractau safonol ymddygiad gwaharddedig, ac ni waeth faint yw hyd y cyfnod hysbysu.

Cyfyngiadau ar roi hysbysiadau pellach

Ni chaiff y landlord roi i ddeiliad neu ddeiliaid y contract hysbysiad pellach o derfynu o dan adran 173 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 o fewn chwe mis i ddyddiad yr hysbysiad tynnu yn ôl hwn.

Mae hyn yn ddarostyngedig i'r eithriad y caiff y landlord, o fewn 28 o ddiwrnodau i'r hysbysiad terfynu cyntaf o dan adran 173 o'r Ddeddf honno (h.y. yr hysbysiad y mae'r hysbysiad hwn yn ei dynnu yn ôl), roi i ddeiliad neu ddeiliaid y contract un hysbysiad terfynu pellach o dan adran 173 o'r Ddeddf honno.

Rheoliad 23

FFURFLEN RHW20

Gwybodaeth Cychwyn

I61 Atod. Pt. 20 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

Ffurflen RHW20

HYSBYSIAD O HAWLIAD MEDDIANT AR SAIL ÔL-DDYLEDION RHENT DIFRIFOL: CONTRACT SAFONOL (HEBLAW CONTRACT SAFONOL RHAGARWEINIOL NEU GONTRACT SAFONOL YMDDYGIAD GWAHARDDDEDIG)

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract safonol (heblaw deiliaid contract safonol rhagarweiniol neu gontract safonol ymddygiad gwaharddedig) o dan adran 182(1) neu 188(1) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod y landlord yn bwriadu gwneud hawliad meddiant i'r llys.

Rhan A: Landlord	Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract
Enw:	Enw(au):
Cyfeiriad:	

Rhan C: Annedd
Cyfeiriad:

Rhan D: Hysbysiad o Hawliad Meddiant
<p>Mae'r landlord yn rhoi hysbysiad i chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, fod y landlord yn bwriadu gwneud cais i'r llys am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ildio meddiant o'r annedd uchod ar sail ôl-ddyledion rhent difrifol. Mae manylion eich ôl-ddyledion rhent difrifol fel a ganlyn:</p> <p><i>Ticiwch fel y bo'n gymwys.</i></p> <p><input type="checkbox"/> Mae o leiaf wyth wythnos o rent heb ei dalu (pan fo'r rhent yn cael ei dalu bob wythnos/pythefnos/pedair wythnos)</p> <p><input type="checkbox"/> Mae o leiaf ddau fis o rent heb ei dalu (pan fo'r rhent yn cael ei dalu yn fisol)</p> <p><input type="checkbox"/> Mae o leiaf un chwarter o rent dros dri mis yn hwyr (pan fo'r rhent yn cael ei dalu'n chwarterol)</p> <p><input type="checkbox"/> Mae o leiaf 25% o'r rhent dros dri mis yn hwyr (pan fo'r rhent yn cael ei dalu'n flynyddol)</p>

Rhan E: Llofnod	
<p>Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:</p> <p>.....</p>	<p>Dyddiad:</p> <p>.....</p>

Defnyddio'r ffurflen hon

Ni ddylid defnyddio'r ffurflen hon ar gyfer contractau safonol rhagarweiniol neu gontractau safonol ymddygiad gwaharddedig. Dylid defnyddio **Ffurflen RHW21** ar gyfer y mathau hynny o gontractau meddiannaeth.

Cyfyngiadau ar achosion yn dilyn yr hysbysiad hwn

Ni chaiff y landlord wneud hawliad meddiant cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r landlord yn rhoi'r hysbysiad hwn i ddeiliad neu ddeiliaid y contract, neu ar ôl i'r cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod hwnnw ddod i ben.

Canllawiau i ddeiliaid contract

Mae'r hysbysiad hwn yn dweud wrthyhch fod eich landlord yn bwriadu dechrau achos i adennill meddiant o'r annedd a nodir yn Rhan C. Dylech ddarllen yr hysbysiad yn ofalus a gofyn am gyngor ynghylch eich amgylchiadau cyn gynted â phosibl.

Y dyddiad cynharaf y gall achosion adennill meddiant ddechrau yw 14 o ddiwrnodau o ddyddiad yr hysbysiad hwn.

Os oes gennych unrhyw amheuan neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch unrhyw agwedd ar yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch landlord yn y lle cyntaf. Gall llawer o broblemau gael eu datrys yn gyflym drwy eu codi'n syth. Os na allwch ddod i gytundeb â'ch landlord, efallai y byddwch am gysylltu ag asiantaeth gynghori (megis Cyngor ar Bopeth Cymru neu Shelter Cymru) neu gynghorwyr cyfreithiol annibynnol. Os ydych yn credu eich bod yn wynebu'r risg o fod yn ddigartref o ganlyniad i gael yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i gael cymorth.

Rheoliad 24

FFURFLEN RHW21

Gwybodaeth Cychwyn

I62 Atod. Pt. 21 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

Ffurflen RHW21

HYSBYSIAD Y LANDLORD O HAWLIAD MEDDIANT AR SAIL ÔL-DDYLEDION RHENT DIFRIFOL: CONTRACT SAFONOL RHAGARWEINIOL NEU CONTRACT SAFONOL YMDDYGIAD GWAHARDDedig

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract safonol rhagarweiniol neu contract safonol ymddygiad gwaharddedig o dan adran 182(1) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod y landlord yn bwriadu gwneud hawliad meddiant i'r llys ar sail ôl-ddyledion rhent difrifol.

Rhan A: Landlord	Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract
Enw:	Enw(au):
Cyfeiriad:	

Rhan C: Annedd
Cyfeiriad:

Rhan D: Hysbysiad o Hawliad Meddiant
<p>Mae'r landlord yn rhoi hysbysiad i chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, fod y landlord yn bwriadu gwneud cais i'r llys am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ildio meddiant o'r annedd uchod ar sail ôl-ddyledion rhent difrifol. Mae manylion eich ôl-ddyledion rhent difrifol fel a ganlyn:</p> <p><i>Ticiwch fel y bo'n gymwys.</i></p> <p><input type="checkbox"/> Mae o leiaf wyth wythnos o rent heb ei dalu (pan fo'r rhent yn cael ei dalu bob wythnos/pythefnos/pedair wythnos)</p> <p><input type="checkbox"/> Mae o leiaf ddau fis o rent heb ei dalu (pan fo'r rhent yn cael ei dalu yn fisol)</p> <p><input type="checkbox"/> Mae o leiaf un chwarter o rent dros dri mis yn hwyr (pan fo'r rhent yn cael ei dalu'n chwarterol)</p> <p><input type="checkbox"/> Mae o leiaf 25% o'r rhent dros dri mis yn hwyr (pan fo'r rhent yn cael ei dalu'n flynyddol)</p>

Rhan E: Yr Hawl i Ofyn am Adolygiad
<p>Cewch chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract o dan adran 202(2) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ofyn bod y landlord yn adolygu'r penderfyniad i roi'r hysbysiad hwn. Rhaid gofyn i'r landlord am adolygiad erbyn [dyddiad]</p> <p><i>Sylwer: Rhaid i'r dyddiad penodedig fod o leiaf 14 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y mae'r landlord yn rhoi'r hysbysiad hwn i ddeiliad neu ddeiliaid y contract.</i></p>

Rhan F: Llofnod	
Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad:
.....

Cyfyngiadau ar achosion yn dilyn yr hysbysiad hwn

Ni chaiff y landlord wneud hawliad meddiant cyn diwedd cyfnod o un mis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r landlord yn rhoi'r hysbysiad hwn i ddeiliad neu ddeiliad y contract, neu ar ôl i'r cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod hwnnw ddod i ben.

Canllawiau i ddeiliad contract

Mae'r hysbysiad hwn yn dweud wrthyfch fod eich landlord yn bwriadu dechrau achos i adennill meddiant o'r annedd a nodir yn Rhan C. Dylech ddarllen yr hysbysiad yn ofalus a gofyn am gyngor ynghylch eich amgylchiadau cyn gynted â phosibl.

Y dyddiad cynharaf y gall achosion adennill meddiant ddechrau yw un mis o ddyddiad yr hysbysiad hwn.

Os oes gennych unrhyw amheuan neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch unrhyw agwedd ar yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch landlord yn y lle cyntaf. Gall llawer o broblemau gael eu datrys yn gyflym drwy eu codi'n syth. Os na allwch ddod i gytundeb â'ch landlord, efallai y byddwch am gysylltu ag asiantaeth gynghori (megis Cyngor ar Bopeth Cymru neu Shelter Cymru) neu gynghorwyr cyfreithiol annibynnol. Os ydych yn credu eich bod yn wynebu'r risg o fod yn ddigartref o ganlyniad i gael yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i gael cymorth.

Rheoliad 25

FFURFLEN RHW22

Gwybodaeth Cychwyn

I63 Atod. Pt. 22 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

Ffurflen RHW22

HYSBYSIAD Y LANDLORD O DERFYNU: CONTRACT SAFONOL CYFNOD PENODOL O FEWN ATODLEN 9B I DDEDDF RHENTU CARTREFI (CYMRU) 2016

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract cyfnod penodol sydd o fewn Atodlen 9B i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, o dan adran 186(1) o'r Ddeddf honno fod rhaid iddo ildio meddiant o'r annedd ar ddyddiad penodedig.

Rhan A: Landlord	Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract
Enw:	Enw(au):
Cyfeiriad:	

Rhan C: Annedd
Cyfeiriad:

Rhan D: Hysbysiad i Ildio Meddiant
Yn unol ag adran 186 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, mae'r landlord yn rhoi hysbysiad i chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, fod rhaid i chi ildio meddiant o'r annedd uchod ar [dyddiad]
Os nad ydych chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, yn ildio meddiant o'r annedd ar y dyddiad a bennir uchod, caiff y landlord wneud hawliad meddiant i'r llys.
Rhaid rhoi'r hysbysiad hwn cyn diwrnod olaf y cyfnod y gwnaed y contract ar ei gyfer, neu ar y diwrnod olaf hwnnw.
<i>Sylwer: Ni chaiff y dyddiad penodedig fod cyn diwrnod olaf y cyfnod y gwnaed y contract meddiannaeth ar ei gyfer, neu lai na dau fis ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad hwn i ddeiliad neu ddeiliaid y contract.</i>

Rhan E: Llofnod	
Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad:
.....

Canllawiau i ddeiliad contract

Yr hysbysiad hwn yw'r cam cyntaf sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ildio meddiant o'r annedd a nodir yn Rhan C. Dylech ei ddarllen yn ofalus iawn. Os nad ydych yn ildio meddiant erbyn y dyddiad a roddir yn Rhan D, caiff eich landlord wneud cais i'r llys am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ildio meddiant.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)*

Os oes gennych unrhyw amheuan neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch unrhyw agwedd ar yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch landlord yn y lle cyntaf. Gall llawer o broblemau gael eu datrys yn gyflym drwy eu codi'n syth. Os na allwch ddod i gytundeb â'ch landlord, efallai y byddwch am gysylltu ag asiantaeth gynghori (megis Cyngor ar Bopeth Cymru neu Shelter Cymru) neu gynghorwyr cyfreithiol annibynnol. Os ydych yn credu eich bod yn wynebu'r risg o fod yn ddigartref o ganlyniad i gael yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i gael cymorth.

Cyfyngiadau ar roi'r hysbysiad hwn

Torri rhwymedigaethau statudol

Yn unol ag adran 186A o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn ar adeg pan fo unrhyw rwymedigaethau statudol a restrir yn Atodlen 9A i'r Ddeddf honno wedi eu torri:

1. Methu â darparu datganiad ysgrifenedig;
2. Cyfyngiad o chwe mis yn dilyn methu â darparu datganiad ysgrifenedig o fewn y cyfnod a bennir yn adran 31 (o'r Ddeddf honno);
3. Methu â darparu gwybodaeth;
- 3A. Methu â darparu tystysgrif perfformiad ynni ddilys;
4. Torri gofynion sicrwydd a blaendal;
5. Taliadau gwaharddedig a blaendaliadau cadw o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019;
- 5A. Methu â sicrhau bod larymau mwg a larymau carbon monocsid sy'n gweithio wedi eu gosod;
- 5B. Methu â chyflenwi adroddiad ar gyflwr trydanol etc.;
- 5C. Methu â darparu adroddiad ar ddiogelwch nwy i ddeiliad y contract.

Ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn oni chydymffurfiwyd â gofynion adran 44 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Yn unol ag adran 75 o Ddeddf Tai 2004, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn mewn perthynas â thŷ amlfeddiannaeth sydd heb drwydded yn unol â'r Ddeddf honno.

Atodlen 9B i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn ond i ddeiliad contract safonol cyfnod penodol sydd o fewn Atodlen 9B i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016:

1. Tenantiaethau a thrwyddedau sy'n contractau meddiannaeth oherwydd hysbysiad a roddir o dan Ran 2 o Atodlen 2 (o'r Ddeddf honno);
2. Llety â chymorth;
3. Llety i geiswyr lloches, etc.;
4. Llety i bersonau digartref;
5. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd;
6. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: yr heddlu;
7. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: y gwasanaethau tân ac achub;
8. Llety dros dro: tir sydd wedi ei gaffael ar gyfer datblygu;
9. Llety dros dro: trefniadau tymor byr;
10. Llety dros dro: llety yn ystod gwaith.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

FFURFLEN RHW23

Gwybodaeth Cychwyn

I64 Atod. Pt. 23 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Ffurflen RHW23

HYSBYSIAD CYN GWNEUD HAWLIAD MEDDIANT

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract o dan adran 159(1), 161(1), 166(1), 171(1) neu 192(1) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod y landlord yn bwriadu gwneud hawliad meddiant i'r llys.

Rhan A: Landlord	Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract
Enw:	Enw(au):
Cyfeiriad:	

Rhan C: Annedd
Cyfeiriad:

Rhan D: Hysbysiad o Hawliad Meddiant
Mae'r landlord yn rhoi hysbysiad i chi, ddeiliad neu ddeiliaid contract yr annedd uchod fod y landlord yn bwriadu gwneud hawliad meddiant i'r llys ar y sail a ganlyn o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016:
<div style="display: flex; align-items: flex-start;"> <input style="margin-right: 10px;" type="checkbox"/> <div> <p>Tor contract (adran 157)</p> <p><i>Nodwch yn glir fanylion y toriad, gan gynnwys pa un a ddibynnir ar adran 55 (ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad gwaharddedig arall).</i></p> </div> </div>
<div style="display: flex; align-items: flex-start;"> <input style="margin-right: 10px;" type="checkbox"/> <div> <p>Seiliau rheoli ystad (adran 160 ac Atodlen 8)</p> <p><i>Ticiwch fel y bo'n gymwys i ddangos y paragraff o Atodlen 8 y dibynnir arno.</i></p> <div style="margin-left: 20px;"> <input type="checkbox"/> Sail A (gwaith adeiladu) <input type="checkbox"/> Sail B (cynlluniau ailddatblygu) <input type="checkbox"/> Sail C (elusennau) <input type="checkbox"/> Sail D (annedd sy'n addas i bobl anabl) <input type="checkbox"/> Sail E (cymdeithasau tai ac ymddiriedolaethau tai: pobl y mae'n anodd eu cartrefu) <input type="checkbox"/> Sail F (grwpiau o anheddau ar gyfer pobl sydd ag anghenion arbennig) <input type="checkbox"/> Sail G (olynwyr wrth gefn) <input type="checkbox"/> Sail H (cyd-ddeiliaid contract) <input type="checkbox"/> Sail I (rhesymau rheoli ystad eraill) <p><i>Nodwch y rhesymau drosodd.</i></p> </div> </div> </div>

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

Rhan D: Hysbysiad o Hawliad Meddiant (parhad)	
<i>Os dibynnir ar Sail I (rhesymau rheoli ystad eraill), nodwch y rhesymau'n glir, e.e. gorlenwi o dan Ran 10 o Ddeddf Tai 1985.</i>	
<input type="checkbox"/>	Methiant deiliad y contract i ildio meddiant o'r annedd yn dilyn deiliad y contract yn darparu hysbysiad i derfynu'r contract (adran 165, 170 neu 191)

Rhan E: Llofnod	
Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad:
.....

Canllawiau i ddeiliad contract

Mae'r hysbysiad hwn yn dweud wrthyhch fod eich landlord yn bwriadu dechrau achos i adennill meddiant o'r annedd a nodir yn Rhan C. Dylech ddarllen yr hysbysiad yn ofalus a gofyn am gyngor ynghylch eich amgylchiadau cyn gynted â phosibl.

Bydd y dyddiad cynharaf y gall achos adennill meddiant ddechrau arno yn dibynnu ar ba sail neu seiliau y ceisir adennill meddiant, sef y seiliau a restrir yn Rhan D. Darperir esboniadau o'r cyfyngiadau sy'n gymwys i seiliau penodol isod.

Os oes gennych unrhyw amheuan neu os oes amoch angen cyngor ynghylch unrhyw agwedd ar yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch landlord yn y lle cyntaf. Gall llawer o broblemau gael eu datrys yn gyflym drwy eu codi'n syth. Os na allwch ddod i gytundeb â'ch landlord, efallai y byddwch am gysylltu ag asiantaeth gynghori (megis Cyngor ar Bopeth Cymru neu Shelter Cymru) neu gynghorwyr cyfreithiol annibynnol. Os ydych yn credu eich bod yn wynebu'r risg o fod yn ddigartref o ganlyniad i gael yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i gael cymorth.

Cyfyngiadau ar achosion yn dilyn yr hysbysiad hwn

Cyfyngiad sy'n gymwys i'r sail tor contract

Caiiff y landlord wneud hawliad meddiant gan ddibynnu ar dorri adran 55 (ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad gwaharddedig arall) **ar neu ar ôl y diwrnod** y mae'r landlord yn rhoi hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract sy'n nodi bod yr adran honno wedi ei thorri.

Ni chaiff y landlord wneud hawliad meddiant gan ddibynnu ar dorri unrhyw deler arall o'r contract meddiannaeth cyn diwedd y cyfnod o **un mis** sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r landlord yn rhoi hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract sy'n nodi bod y teler hwnnw wedi ei dorri.

Yn y naill achos a'r llall, ni chaiff y landlord wneud hawliad meddiant ar ôl diwedd y cyfnod o **chwe mis** sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r landlord yn rhoi'r hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract.

Cyfyngiad sy'n gymwys i'r sail rheoli ystad

Ni chaiff y landlord wneud hawliad meddiant cyn diwedd y cyfnod o **un mis** sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r landlord yn rhoi'r hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract, neu ar ôl diwedd y cyfnod o **chwe mis** sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r landlord yn rhoi'r hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract.

Os yw cynllun ailddatblygu yn cael ei gymeradwyo o dan Ran 2 o Atodlen 8 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ac yn ddarostyngedig i amodau, caiff y landlord roi hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract sy'n pennu Sail B o'r seiliau rheoli ystad cyn bod yr amodau wedi eu bodloni.

Cyfngiad sy'n gymwys i'r sail rheoli ystad (parhad)

Ni chaiff y landlord roi hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract sy'n pennu Sail G o'r seiliau rheoli ystad (dim angen y llety ar olynydd):

(a) cyn diwedd y cyfnod o **chwe mis** sy'n dechrau â'r diwrnod y daeth y landlord (neu yn achos cyd-landlordiaid, unrhyw un ohonynt) i wybod am farwolaeth y deiliad contract blaenorol, neu

(b) ar ôl diwedd y cyfnod o **12 mis** sy'n dechrau â'r diwrnod hwnnw.

Ni chaiff y landlord roi i ddeiliad y contract hysbysiad adennill meddiant sy'n pennu Sail H o'r seiliau rheoli ystad (cyd-ddeiliad contract yn gadael) ar ôl diwedd y cyfnod o **chwe mis** sy'n dechrau â'r diwrnod y daeth hawliau a rhwymedigaethau cyd-ddeiliad y contract i ben o dan y contract.

Cyfngiadau sy'n gymwys i'r sail adennill meddiant a ddarperir gan adrannau 165, 170 ac 191

Caiff y landlord wneud hawliad meddiant **ar neu ar ôl y diwrnod** y mae'r landlord yn rhoi hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract, ond ni chaiff y landlord wneud hawliad meddiant ar ôl diwedd y cyfnod o **chwe mis** sy'n dechrau â'r diwrnod hwnnw.

Ni chaiff y landlord roi i ddeiliad y contract hysbysiad adennill meddiant sy'n pennu'r sail yn adran 165, 171 neu 191 (fel y bo'n gymwys) ar ôl diwedd y cyfnod o **ddau fis** sy'n dechrau â'r dyddiad a bennir yn unrhyw hysbysiad a roddir o dan adran 163 neu 168 neu o gymal terfynu deiliad y contract (fel y bo'n gymwys) fel y dyddiad y byddai deiliad y contract yn ildio meddiant o'r annedd.

Rheoliad 27

FFURFLEN RHW24

Gwybodaeth Cychwyn

I65 Atod. Pt. 24 mewn grym ar 1.12.2022, gweler **rhl. 1** (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

Ffurflen RHW24

HYSBYSIAD TERFYNU O DAN GYMAL TERFYNU'R LANDLORD: CONTRACT SAFONOL CYFNOD PENODOL GYDA CHYFNOD HYSBYSU BYRRAF A GANIATEIR O CHWE MIS

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract safonol cyfnod penodol sydd â hawl i gael cyfnod hysbysu byrraf a ganiateir o chwe mis, yn unol â chymal terfynu'r landlord ac adran 194(1) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, fod rhaid iddo ildio meddiant o'r annedd ar ddyddiad penodedig. Ni chaniateir rhoi'r ffurflen hon ond pan fo'r contract meddiannaeth yn cynnwys cymal terfynu'r landlord a bod y contract naill ai am gyfnod o 2 flynedd neu fwy neu yn dod o fewn Atodlen 9C i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

Rhan A: Landlord	Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract
Enw:	Enw(au):
Cyfeiriad:	

Rhan C: Annedd
Cyfeiriad:

Rhan D: Hysbysiad i Ildio Meddiant
Mae'r landlord yn hysbysu bod cymal terfynu'r landlord yng nghontract meddiannaeth yr annedd uchod yn cael ei arfer. Mae'r landlord yn ei gwneud yn ofynnol i chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, ildio meddiant o'r annedd ar [dyddiad]
<i>Sylwer: Ni chaff y dyddiad penodedig fod yn llai na chwe mis ar ôl y diwrnod y rhoddir hysbysiad i ddeiliad neu ddeiliaid y contract yn unol â chymal terfynu'r landlord.</i>

Rhan E: Llofnod	
Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad:
.....

Canllawiau i ddeiliaid contract

Yr hysbysiad hwn yw'r cam cyntaf sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ildio meddiant o'r annedd a nodir yn Rhan C. Dylech ei ddarllen yn ofalus iawn. Os na fyddwch yn ildio meddiant erbyn y dyddiad a roddir yn Rhan D, caiff eich landlord wneud cais i'r llys am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ildio meddiant.

Os oes gennych unrhyw amheuan neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch unrhyw agwedd ar yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch landlord yn y lle cyntaf. Gall llawer o broblemau gael eu datrys yn gyflym drwy eu codi'n syth. Os na allwch ddod i gytundeb â'ch landlord, efallai y byddwch am gysylltu ag asiantaeth gynghori (megis Cyngor ar Bopeth Cymru neu Shelter Cymru) neu gynghorwyr cyfreithiol annibynnol. Os ydych yn credu eich bod yn wynebu'r risg o fod yn ddigartref o ganlyniad i gael yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i gael cymorth.

Cyfyngiadau ar roi'r hysbysiad hwn

Rhaid i'r contract meddiannaeth gynnwys cymal terfynu'r landlord

Yn unol ag adran 194 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, dim ond os yw'r contract safonol cyfnod penodol yn cynnwys cymal terfynu'r landlord y chaniateir i'r hysbysiad hwn gael ei roi. Ni chaiff y contract gynnwys cymal terfynu'r landlord oni bai ei fod am gyfnod o ddwy flynedd neu fwy **neu** ei fod wedi ei restru yn Atodlen 9C i'r Ddeddf honno:

- | | |
|--|---|
| 1. <i>Tenantiaethau a thrwyddedau sy'n gcontractau meddiannaeth oherwydd hysbysiad a roddir o dan Ran 2 o Atodlen 2 (i'r Ddeddf honno)</i> | 6. <i>Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: yr heddlu</i> |
| 2. <i>Llety â chymorth</i> | 7. <i>Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: y gwasanaethau tân ac achub</i> |
| 3. <i>Llety i geiswyr lloches, etc.</i> | 8. <i>Llety dros dro: tir sydd wedi ei gaffael ar gyfer datblygu</i> |
| 4. <i>Llety i bersonau digartref</i> | 9. <i>Llety dros dro: trefniadau tymor byr</i> |
| 5. <i>Meddiannaeth yn rhinwedd swydd</i> | 10. <i>Llety dros dro: llety yn ystod gwaith</i> |

18 mis cyntaf y feddiannaeth

Yn unol ag adran 196 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn yn ystod 18 mis cyntaf y contract meddiannaeth. Nid yw'r cyfyngiad hwn yn gymwys os yw'r contract meddiannaeth yn dod o fewn Atodlen 9 i'r Ddeddf honno:

- | | |
|---|---|
| 1. <i>Contractau safonol ymddygiad gwaharddedig</i> | 7. <i>Meddiannaeth yn rhinwedd swydd</i> |
| 2. <i>Tenantiaethau a thrwyddedau sy'n gcontractau meddiannaeth oherwydd hysbysiad a roddir o dan Ran 2 o Atodlen 2</i> | 8. <i>Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: yr heddlu</i> |
| 3. <i>Llety â chymorth</i> | 9. <i>Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: y gwasanaethau tân ac achub</i> |
| 4. <i>Llety i geiswyr lloches, etc.</i> | 10. <i>Llety dros dro: tir sydd wedi ei gaffael ar gyfer datblygu</i> |
| 5. <i>Diddymwyd – nid yw'n gymwys</i> | 11. <i>Llety dros dro: trefniadau tymor byr</i> |
| 6. <i>Llety i bersonau digartref</i> | 12. <i>Llety dros dro: llety yn ystod gwaith</i> |

Torri rhwymedigaeth statudol

Yn unol ag adran 197 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn ar adeg pan fo unrhyw rwymedigaethau statudol a restrir yn Atodlen 9A i'r Ddeddf honno wedi eu torri:

1. *Methu â darparu datganiad ysgrifenedig;*
2. *Cyfyngiad o chwe mis yn dilyn methu â darparu datganiad ysgrifenedig o fewn y cyfnod a bennir yn adran 31 (o'r Ddeddf honno);*
3. *Methu â darparu gwybodaeth;*
- 3A. *Methu â darparu tystysgrif perfformiad ynni ddilys;*
4. *Torri gofynion sicrwydd a blaendal;*
5. *Taliadau gwaharddedig a blaendaliadau cadw o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019;*
- 5A. *Methu â sicrhau bod larymau mwg a larymau carbon monocsid sy'n gweithio wedi eu gosod;*
- 5B. *Methu â chyflenwi adroddiad ar gyflwr trydanol etc.;*
- 5C. *Methu â darparu adroddiad ar ddiogelwch nwy i ddeiliad y contract.*

Ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn oni chydymffurfiwyd â gofynion adran 44 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Yn unol ag adran 75 o Ddeddf Tai 2004, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn mewn perthynas â thŷ amlfeddiannaeth sydd heb drwydded yn unol â'r Ddeddf honno.

Hawliad meddiant dialgar

Caiff deiliad contract orfodi neu ddibynnu ar rwymedigaethau'r landlord mewn perthynas ag annedd ffit i bobl fyw ynddi ac i gadw'r annedd mewn cyflwr da o dan adrannau 91 a 92 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Os yw'r landlord yn dyroddi'r hysbysiad hwn mewn ymateb i hynny, caiff llys ystyried bod y landlord yn gweud hawliad meddiant i osgoi cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hynny (hawliad dialgar).

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffuriau Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

Yn unol ag adran 217 o'r Ddeddf honno, caiff y llys wrthod gwneud gorchymyn adennill meddiant os yw'r llys yn ystyried bod yr hawliad meddiant yn hawliad dialgar.

Yn unol ag adran 198 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn o fewn chwe mis i'r llys yn gwrthod gwneud gorchymyn adennill meddiant oherwydd bod y llys yn ystyried bod yr hawliad yn hawliad dialgar.

Cyfyngiadau ar ddod â hawliad meddiant

Terfynau amser

Yn unol ag adran 200 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni chaiff y landlord wneud hawliad meddiant cyn y dyddiad a restrir yn Rhan D o'r hysbysiad hwn **neu** ar ôl cyfnod o ddau fis ar ôl y dyddiad hwnnw.

Rheoliad 28

FFURFLEN RHW25

Gwybodaeth Cychwyn

I66 Atod. Pt. 25 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Ffurflen RHW25

HYSBYSIAD TERFYNU O DAN GYMAL TERFYNU'R LANDLORD: CONTRACT SAFONOL CYFNOD PENODOL GYDA CHYFNOD HYSBYSU BYRRAF A GANIATEIR O DDAU FIS

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract safonol cyfnod penodol sydd â hawl i gyfnod hysbysu byrraf a ganiateir o ddau fis, yn unol â chymal terfynu'r landlord ac adran 194(1) o'r Ddeddf honno, fod rhaid iddo ildio meddiant o'r annedd ar ddyddiad penodedig.

Rhan A: Landlord	Rhan B: Deiliad neu Ddeiliad y Contract
Enw:	Enw(au):
Cyfeiriad:	

Rhan C: Annedd
Cyfeiriad:

Rhan D: Hysbysiad i Ildio Meddiant
<p>Mae'r landlord yn hysbysu bod cymal terfynu'r landlord yng nghontract meddiannaeth yr annedd uchod yn cael ei arfer. Mae'r landlord yn ei gwneud yn ofynnol i chi, ddeiliad neu ddeiliad y contract, ildio meddiant o'r annedd ar [dyddiad]</p> <p><i>Sylwer: Ni chaiff y dyddiad penodedig fod yn llai na dau fis ar ôl y diwrnod y rhoddir hysbysiad i ddeiliad neu ddeiliad y contract yn unol â chymal terfynu'r landlord.</i></p>

Rhan E: Llofnod				
<table style="width: 100%;"> <tr> <td style="width: 50%;">Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:</td> <td style="width: 50%;">Dyddiad:</td> </tr> <tr> <td>.....</td> <td>.....</td> </tr> </table>	Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad:
Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad:			
.....			

Canllawiau i ddeiliad contract

Yr hysbysiad hwn yw'r cam cyntaf sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ildio meddiant o'r annedd a nodir yn Rhan C. Dylech ei ddarllen yn ofalus iawn. Os nad ydych yn ildio meddiant erbyn y dyddiad a roddir yn Rhan D, caiff eich landlord wneud cais i'r llys am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ildio meddiant.

Os oes gennych unrhyw amheuan neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch unrhyw agwedd ar yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch landlord yn y lle cyntaf. Gall llawer o broblemau gael eu datrys yn gyflym drwy eu codi'n syth. Os na allwch ddod i gytundeb â'ch landlord, efallai y byddwch am gysylltu ag asiantaeth gynghori (megis Cyngor ar Bopeth Cymru neu Shelter Cymru) neu gynghorwyr cyfreithiol annibynnol. Os ydych yn credu eich bod yn wynebu'r risg o fod yn ddigartref o ganlyniad i gael yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i gael cymorth.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

Cyfnod hysbysu byrraf a ganiateir o ddau fis

Gall contract meddiannaeth fod â chyfnod hysbysu byrraf a ganiateir o ddau fis oherwydd:

- a) ei fod yn contract wedi ei drosi: yn union cyn i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ddod i rym, roedd y contract meddiannaeth yn denantiaeth neu'n drwydded am gyfnod penodol a oedd yn cynnwys cymal terfynu'r landlord (paragraff 25D o Atodlen 12 i'r Ddeddf honno), neu
- b) bod y contract meddiannaeth yn dod o fewn Atodlen 8A i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (adran 195A o'r Ddeddf honno):

- | | |
|--|--|
| 1. Contractau safonol ymddygiad gwaharddedig | 7. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd |
| 2. Tenantiaethau a thrwyddedau sy'n gcontractau meddiannaeth oherwydd hysbysiad a roddir o dan Ran 2 o Atodlen 2 | 8. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: yr heddlu |
| 3. Llety ar gyfer myfyrwyr mewn addysg uwch | 9. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: y gwasanaethau tân ac achub |
| 4. Llety â chymorth | 10. Llety dros dro: tir sydd wedi ei gaffael ar gyfer datblygu |
| 5. Llety i geiswyr lloches, etc. | 11. Llety dros dro: trefniadau tymor byr |
| 6. Llety i bersonau digartref | 12. Llety dros dro: llety yn ystod gwaith |

Cyfyngiadau ar roi'r hysbysiad hwn

Rhaid i'r contract meddiannaeth gynnwys cymal terfynu landlord

Yn unol ag adran 194 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, dim ond os yw'r contract safonol cyfnod penodol yn cynnwys cymal terfynu'r landlord y caniateir i'r hysbysiad hwn gael ei roi.

Os yw'r contract yn contract wedi ei drosi, dim ond os oedd y denantiaeth neu'r drwydded hefyd yn cynnwys cymal terfynu'r landlord yn union cyn i'r Ddeddf honno ddod i rym y caniateir iddo gynnwys cymal terfynu'r landlord.

Os cafodd y contract meddiannaeth ei wneud ar ôl i'r Ddeddf honno ddod i rym, dim ond os yw'n gcontract am gyfnod o ddwy flynedd neu fwy **neu** wedi ei restru yn Atodlen 9C i'r Ddeddf honno y caniateir iddo gynnwys cymal terfynu'r landlord:

- | | |
|---|--|
| 1. Tenantiaethau a thrwyddedau sy'n gcontractau meddiannaeth oherwydd hysbysiad a roddir o dan Ran 2 o Atodlen 2 (i'r Ddeddf honno) | 6. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: yr heddlu |
| 2. Llety â chymorth | 7. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: y gwasanaethau tân ac achub |
| 3. Llety i geiswyr lloches, etc. | 8. Llety dros dro: tir sydd wedi ei gaffael ar gyfer datblygu |
| 4. Llety i bersonau digartref | 9. Llety dros dro: trefniadau tymor byr |
| 5. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd | 10. Llety dros dro: llety yn ystod gwaith |

Pedwar/18 mis cyntaf y feddiannaeth

Yn unol ag adran 196 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni chaniateir i'r hysbysiad hwn gael ei roi o fewn y 18 mis cyntaf ar ôl dyddiad meddiannu'r contract meddiannaeth.

Os oedd y contract meddiannaeth yn denantiaeth neu'n drwydded am gyfnod penodol a oedd yn cynnwys cymal terfynu'r landlord yn union cyn i'r Ddeddf honno ddod i rym (contract wedi ei drosi), ni chaniateir i'r hysbysiad hwn gael ei roi yn ystod y **pedwar** mis cyntaf ar ôl dyddiad meddiannu'r contract.

Yn y naill achos neu'r llall, nid yw'r cyfyngiad hwn yn gymwys os yw'r contract meddiannaeth yn dod o fewn Atodlen 9 i'r Ddeddf honno:

- | | |
|--|--|
| 1. Contractau safonol ymddygiad gwaharddedig | 7. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd |
| 2. Tenantiaethau a thrwyddedau sy'n gcontractau meddiannaeth oherwydd hysbysiad a roddir o dan Ran 2 o Atodlen 2 | 8. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: yr heddlu |
| 3. Llety â chymorth | 9. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: y gwasanaethau tân ac achub |
| 4. Llety i geiswyr lloches, etc. | 10. Llety dros dro: tir sydd wedi ei gaffael ar gyfer datblygu |
| 5. Diddymwyd – nid yw'n gymwys | 11. Llety dros dro: trefniadau tymor byr |
| 6. Llety i bersonau digartref | 12. Llety dros dro: llety yn ystod gwaith |

Torri rhwymedigaeth statudol

Yn unol ag adran 197 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn ar adeg pan fo unrhyw rwymedigaethau statudol a restrir yn Atodlen 9A i'r Ddeddf honno wedi eu torri:

1. Methu â darparu datganiad ysgrifenedig;
2. Cyfyngiad o chwe mis yn dilyn methu â darparu datganiad ysgrifenedig o fewn y cyfnod a bennir yn adran 31 (o'r Ddeddf honno);
3. Methu â darparu gwybodaeth;
- 3A. Methu â darparu tystysgrif perfformiad ynni ddilys;
4. Torri gofynion sicrwydd a blaendal;
5. Taliadau gwaharddedig a blaendaliadau cadw o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019;
- 5A. Methu â sicrhau bod larymau mwg a larymau carbon monocsid sy'n gweithio wedi eu gosod;
- 5B. Methu â chyflenwi adroddiad ar gyflwr trydanol etc.;
- 5C. Methu â darparu adroddiad ar ddiogelwch nwy i ddeiliad contract.

Ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn oni chydymffurfiwyd â gofynion adran 44 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Yn unol ag adran 75 o Ddeddf Tai 2004, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn mewn perthynas â thŷ amlfeddiannaeth sydd heb drwydded yn unol â'r Ddeddf honno.

Hawliad meddiant dialgar

Caiff deiliad contract orfodi neu ddibynnu ar rwymedigaethau'r landlord mewn perthynas ag annedd ffit i bobl fyw ynddi ac i gadw'r annedd mewn cyflwr da o dan adrannau 91 a 92 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Os yw'r landlord yn dyroddi'r hysbysiad hwn mewn ymateb i hynny, caiff llys ystyried bod y landlord yn gwneud hawliad meddiant i osgoi cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hynny (hawliad dialgar). Yn unol ag adran 217 o'r Ddeddf honno, caiff y llys wrthod gwneud gorchymyn adennill meddiant os yw'r llys yn ystyried bod yr hawliad meddiant yn hawliad dialgar.

Yn unol ag adran 198 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn o fewn chwe mis i'r llys yn gwrthod gwneud gorchymyn adennill meddiant oherwydd bod y llys yn ystyried bod yr hawliad yn hawliad dialgar.

Cyfngiadau ar ddod â hawliad meddiant

Terfynau amser

Yn unol ag adran 200 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni chaiff y landlord wneud hawliad meddiant cyn y dyddiad a restrir yn Rhan D o'r hysbysiad hwn **neu** ar ôl cyfnod o ddau fis ar ôl y dyddiad hwnnw.

Rheoliad 29

FFURFLEN RHW26

Gwybodaeth Cychwyn

I67 Atod. Pt. 26 mewn grym ar 1.12.2022, gweler **rhl. 1** (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

Ffurflen RHW26

HYSBYSIAD O DYNNU YN ÔL HYSBYSIAD TERFYNU O DAN GYMAL TERFYNU'R LANDLORD: CONTRACT SAFONOL CYFNOD PENODOL

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract o dan adran 201(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod yr hysbysiad a roddwyd yn flaenorol yn unol â chymal terfynu'r landlord wedi ei dynnu yn ôl.

Rhan A: Landlord	Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract
Enw: Cyfeiriad:	Enw(au):

Rhan C: Annedd
Cyfeiriad:

Rhan D: Tynnu Hysbysiad i Ildio Meddiant yn ôl
<p>Ar [dyddiad] rhoddodd y landlord hysbysiad, yn unol â chymal terfynu'r landlord yn y contract meddiannaeth, ei bod yn ofynnol i chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, ildio meddiant o'r annedd uchod ar [dyddiad]</p> <p>Mae'r landlord yn awr yn rhoi hysbysiad pellach o dan adran 201(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod yr hysbysiad blaenorol y cyfeirir ato uchod wedi ei dynnu yn ôl. Os rhoddir yr hysbysiad hwn ar ôl 28 o ddiwrnodau o ddyddiad yr hysbysiad blaenorol, fe gewch chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, wrthwynebu ei dynnu yn ôl.</p> <p>Rhaid i'r hysbysiad hwn gael ei roi cyn i'r contract meddiannaeth ddod i ben.</p>

Rhan E: Hawl i Wrthwynebu Tynnu'r Hysbysiad yn Ôl <i>Ticiwch fel y bo'n gymwys.</i>
<div style="margin-bottom: 10px;"> <input type="checkbox"/> Mae'r hysbysiad hwn wedi ei ddarparu yn ystod yr 28 o ddiwrnodau o ddyddiad yr hysbysiad blaenorol o dan adran 194 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Ni chewch chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, wrthwynebu tynnu'r hysbysiad hwnnw yn ôl. </div> <div> <input type="checkbox"/> Mae'r hysbysiad hwn wedi ei ddarparu ar ôl 28 o ddiwrnodau o ddyddiad yr hysbysiad blaenorol o dan adran 194 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Cewch chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, wrthwynebu tynnu'r hysbysiad hwnnw yn ôl. Rhaid i unrhyw wrthwynebiad fod yn ysgrifenedig a rhaid ei ddyroddi i'r landlord cyn diwedd cyfnod rhesymol. </div>

Rhan F: Llofnod
<div style="display: flex; justify-content: space-between;"> <div style="width: 45%;">Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:</div> <div style="width: 45%;">Dyddiad:</div> </div>

Rheoliad 30

FFURFLEN RHW27

Gwybodaeth Cychwyn

- I68** Atod. Pt. 27 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

Ffurflen RHW27

HYSBYSIAD O FWRIAD LANDLORD I DERFYNU CONTRACT MEDDIANNAETH OHERWYDD CEFNU AR YR ANNEDD

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract o dan adran 220(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 o fwriad y landlord i ddod â'r contract meddiannaeth i ben am fod y landlord yn credu bod deiliad y contract wedi cefnu ar yr annedd.

<p>Rhan A: Landlord</p> <p>Enw:</p> <p>Cyfeiriad:</p>	<p>Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract</p> <p>Enw(au):</p>
<p>Rhan C: Isddeiliad neu Isddeiliaid a Lletywr neu Lletywyr</p> <p>Enw(au) (os yw'n gymwys):</p> <p><i>Rhaid i'r landlord roi copi o'r hysbysiad hwn i unrhyw letywr neu isddeiliad i ddeiliad neu ddeiliaid y contract.</i></p>	<p>Rhan D: Annedd</p> <p>Cyfeiriad:</p>
<p>Rhan E: Hysbysiad o Fwriad i Derfynu Contract Meddiannaeth</p> <p>Mae'r landlord yn credu eich bod chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, wedi cefnu ar yr annedd uchod.</p> <p>Os nad ydych chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, wedi cefnu ar yr annedd, rhaid ichi hysbysu'r landlord yn ysgrifenedig cyn diwedd y cyfnod rhybuddio ar [dyddiad]</p> <p>Yn ystod y cyfnod rhybuddio, bydd y landlord yn gwneud unrhyw ymholiadau sy'n angenrheidiol i fodloni'r landlord eich bod chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, wedi cefnu ar yr annedd. Os yw'r landlord, ar ddiwedd y cyfnod rhybuddio, wedi ei fodloni eich bod chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, wedi cefnu ar yr annedd, mae'r landlord yn bwriadu dod â'r contract meddiannaeth i ben.</p> <p>Os na fyddwch yn ymateb erbyn y dyddiad uchod gan ddweud nad ydych chi wedi cefnu ar yr annedd, mae'n bosibl y gall y landlord ddod â'r contract meddiannaeth i ben drwy ddyroddi hysbysiad pellach (Ffurflen RHW28). Ymdrinnir ag unrhyw eiddo personol sy'n dal yn yr annedd ar ôl i chi gefnu arni yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 221 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.</p> <p><i>Sylwer: Rhaid i'r dyddiad penodedig fod bedair wythnos o'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad hwn i ddeiliad y contract.</i></p>	
<p>Rhan F: Llofnod</p> <p>Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran: Dyddiad:</p>	

Rheoliad 31

FFURFLEN RHW28

Gwybodaeth Cychwyn

- I69** Atod. Pt. 28 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

Ffurflen RHW28

HYSBYSIAD O DERFYNU CONTRACT MEDDIANNAETH OHERWYDD CEFNU AR YR ANNEDD

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract o dan adran 220(5) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod y contract meddiannaeth ar ben am fod deiliad y contract wedi cefnu ar yr annedd a bod y landlord yn adennill meddiant o'r annedd heb achos llys. Rhaid i'r hysbysiad hwn fod wedi ei ragflaenu gan hysbysiad o dan adran 220(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Ffurflen RHW27).

<p align="center">Rhan A: Landlord</p> <p>Enw:</p> <p>Cyfeiriad:</p>	<p align="center">Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract</p> <p>Enw(au):</p>
<p align="center">Rhan C: Isddeiliad neu Isddeiliaid a Lletywr neu Letywr</p> <p>Enw(au) (os yw'n gymwys):</p> <p><i>Rhaid i'r landlord roi copi o'r hysbysiad hwn i unrhyw letywr neu isddeiliad i ddeiliad neu ddeiliaid y contract.</i></p>	<p align="center">Rhan D: Annedd</p> <p>Cyfeiriad:</p>
<p align="center">Rhan E: Hysbysiad o Fwriad i Derfynu Contract Meddiannaeth</p> <p>Yn dilyn yr hysbysiad o dan adran 220(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a roddwyd ar [dyddiad yr hysbysiad blaenorol], mae'r cyfnod rhybuddio wedi dod i ben ac mae'r landlord wedi ei fodloni eich bod chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, wedi cefnu ar yr annedd uchod.</p> <p>Mae'r landlord yn hysbysu bod contract meddiannaeth yr annedd uchod yn dod i ben ar [dyddiad].....</p> <p>Bydd y landlord yn adennill meddiant o'r annedd uchod heb achos llys ar [dyddiad]</p> <p>Ymdrinnir ag unrhyw eiddo personol sy'n dal yn yr annedd ar ôl ichi gefnu arni yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 221 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.</p> <p><i>Sylwer: Rhaid i'r dyddiadau penodedig fod o leiaf bedair wythnos o'r diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad blaenorol i ddeiliad y contract. Ni chaniateir i'r hysbysiad hwn gael ei roi cyn diwedd y cyfnod rhybuddio a bennwyd yn yr hysbysiad blaenorol.</i></p>	
<p align="center">Rhan F: Llofnod</p> <p>Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran: Dyddiad:</p>	

Rheoliad 32

FFURFLEN RHW29

Gwybodaeth Cychwyn

I70 Atod. Pt. 29 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

Ffurflen RHW29

HYSBYSIAD O FWRIAD LANDLORD I DERFYNU HAWLIAU A RHWYMEDIGAETHAU CYD-DDEILIAD CONTRACT OHERWYDD ANFEDDIANNAETH

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i gyd-ddeiliad contract o dan adran 225(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod y landlord yn bwriadu dod â hawliau a rhwymedigaethau'r cyd-ddeiliad contract i ben o dan y contract meddiannaeth am mai un o delerau'r contract meddiannaeth yw bod rhaid i gyd-ddeiliad y contract feddiannu'r annedd fel ei unig gartref neu ei brif gartref a bod y landlord yn credu nad yw cyd-ddeiliad y contract yn meddiannu'r annedd neu nad yw'n bwriadu ei meddiannu.

<p>Rhan A: Landlord</p> <p>Enw:</p> <p>Cyfeiriad:</p>	<p>Rhan B: Cyd-ddeiliad y Contract</p> <p><i>Y mae'r landlord yn credu nad yw'n meddiannu'r annedd ac nad yw'n bwriadu ei meddiannu</i></p> <p>Enw:</p> <p>Cyfeiriad (os yw'n hysbys):</p>
<p>Rhan C: Cyd-ddeiliad Contract Arall neu Gyd-ddeiliaid Contract Eraill</p> <p>Enw(au):</p> <p><i>Rhaid i'r landlord roi copi o'r hysbysiad hwn i bob un o'r cyd-ddeiliaid contract eraill.</i></p>	<p>Rhan D: Annedd</p> <p>Cyfeiriad:</p>
<p>Rhan E: Hysbysiad o Fwriad i Ddod â Hawliau a Rhwymedigaethau'r Person a Enwir yn Rhan B i Ben</p> <p>Mae'n ofynnol i gyd-ddeiliad contract feddiannu'r annedd os yw'n un o delerau'r contract meddiannaeth (sut bynnag y mynegir y teler hwnnw) bod rhaid iddo feddiannu'r annedd fel ei unig gartref neu ei brif gartref.</p> <p>Mae contract meddiannaeth yr annedd uchod yn darparu fel a ganlyn:</p> <p><i>Rhowch y teler yn y contract meddiannaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyd-ddeiliad y contract feddiannu'r annedd fel ei unig gartref neu ei brif gartref.</i></p>	

Rhan E: Hysbysiad o Fwriad i Ddod â Hawliau a Rhwymedigaethau'r Person a Enwir yn Rhan B i Ben (parhad)
<p>Mae'r landlord yn credu nad yw'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B yn meddiannu'r annedd ac nad yw'n bwriadu ei meddiannu.</p> <p>Os yw'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B yn meddiannu'r annedd neu'n bwriadu ei meddiannu, rhaid iddo hysbysu'r landlord yn ysgrifenedig cyn diwedd y cyfnod rhybuddio ar [dyddiad]</p> <p>.....</p> <p>Yn ystod y cyfnod rhybuddio, bydd y landlord yn gwneud unrhyw ymholiadau sy'n angenrheidiol i'w fodloni ei hun nad yw'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B yn meddiannu'r annedd neu nad yw'n bwriadu ei meddiannu.</p> <p>Os yw'r landlord wedi ei fodloni, ar ddiwedd y cyfnod rhybuddio, nad yw'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B yn meddiannu'r annedd neu nad yw'n bwriadu ei meddiannu, mae'r landlord yn bwriadu dod â hawliau a rhwymedigaethau'r cyd-ddeiliad contract o dan y contract meddiannaeth i ben.</p> <p>Os nad yw'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B yn ymateb erbyn y dyddiad uchod gan ddweud ei fod yn meddiannu'r annedd neu'n bwriadu ei meddiannu, mae'n bosibl y gall y landlord ddod â hawliau a rhwymedigaethau'r person hwnnw i ben o dan y contract meddiannaeth drwy ddyroddi hysbysiad pellach (Ffurflen RHW30).</p> <p><i>Sylwer: Rhaid i'r dyddiad penodedig fod bedair wythnos o'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad hwn i'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B.</i></p>

Rhan F: Llofnod				
<table> <tr> <td>Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:</td> <td>Dyddiad:</td> </tr> <tr> <td>.....</td> <td>.....</td> </tr> </table>	Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad:
Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad:			
.....			

Rheoliad 33

FFURFLEN RHW30

Gwybodaeth Cychwyn

I71 Atod. Pt. 30 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

Ffurflen RHW30

HYSBYSIAD O DERFYNU HAWLIAU A RHWYMEDIGAETHAU CYD-DDEILIAD CONTRACT OHERWYDD ANFEDDIANNAETH

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i gyd-ddeiliad contract o dan adran 225(6) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod ei hawliau a'i rhwymedigaethau o dan y contract meddiannaeth ar ben am nad yw'r annedd yn cael ei meddiannu. Rhaid i'r hysbysiad hwn fod wedi ei ragflaenu gan hysbysiad o dan adran 225(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (**Ffurflen RHW29**).

<p>Rhan A: Landlord</p> <p>Enw:</p> <p>Cyfeiriad:</p>	<p>Rhan B: Cyd-ddeiliad y Contract Sydd i beidio â bod yn barti i'r contract meddiannaeth mwyach</p> <p>Enw:</p> <p>Cyfeiriad (os yw'n hysbys):</p>
<p>Rhan C: Cyd-ddeiliad Contract Arall neu Gyd-ddeiliaid Contract Eraill</p> <p>Enw(au) (os yw'n gymwys):</p> <p>Rhaid i'r landlord roi copi o'r hysbysiad hwn i bob un o'r cyd-ddeiliaid contract eraill.</p>	<p>Rhan D: Annedd</p> <p>Cyfeiriad:</p>
<p>Rhan E: Hysbysiad o Derfynu Hawliau a Rhwymedigaethau'r Person a Enwir yn Rhan B</p> <p>Yn dilyn yr hysbysiad a roddwyd ar [dyddiad yr hysbysiad blaenorol], mae'r cyfnod rhybuddio wedi dod i ben ac mae'r landlord wedi ei fodloni nad yw'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B yn meddiannu'r annedd uchod ac nad yw'n bwriadu ei meddiannu.</p> <p>Mae'r landlord yn hysbysu bod hawliau a rhwymedigaethau'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B o dan y contract meddiannaeth i ddod i ben. Bydd y cyd-ddeiliad contract a enwyd yn Rhan B yn peidio â bod yn barti i'r contract meddiannaeth ar [dyddiad]</p> <p>Sylwer: Rhaid i'r dyddiad penodedig fod yn wyth wythnos o'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad hwn i'r cyd-ddeiliad contract a enwyd yn Rhan B. Ni chaniateir i'r hysbysiad hwn gael ei roi cyn diwedd y cyfnod rhybuddio a bennwyd yn yr hysbysiad blaenorol.</p>	
<p>Rhan F: Llofnod</p> <p>Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran: Dyddiad:</p>	

FFURFLEN RHW31

Gwybodaeth Cychwyn

- I72** Atod. Pt. 31 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Ffurflen RHW31

HYSBYSIAD O FWRIAD CYD-DDEILIAD CONTRACT I WNEUD CAIS AM ORCHYMYN SY'N TERFYNU HAWLIAU A RHWYMEDIGAETHAU CYD-DDEILIAD CONTRACT ARALL OHERWYDD ANFEDDIANNAETH

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan gyd-ddeiliad contract ("cyd-ddeiliad contract A") i roi hysbysiad i gyd-ddeiliad contract arall ("cyd-ddeiliad contract B") o dan adran 227(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") fod cyd-ddeiliad contract A yn bwriadu gwneud cais i'r llys am orchymyn i ddod â hawliau a rhwymedigaethau cyd-ddeiliad contract B o dan y contract meddiannaeth i ben am mai un o delerau'r contract meddiannaeth yw bod rhaid i'r cyd-ddeiliad contract feddiannu'r annedd fel ei unig gartref neu ei brif gartref a bod cyd-ddeiliad contract A yn credu nad yw cyd-ddeiliad contract B yn meddiannu'r annedd neu'n bwriadu ei meddiannu.

Rhan A: Cyd-ddeiliad Contract A	Rhan B: Cyd-ddeiliad Contract B <i>Nad yw Cyd-ddeiliad Contract A yn credu ei fod yn meddiannu'r annedd ac nad yw'n bwriadu ei meddiannu</i>
Enw:	Enw: Cyfeiriad (os yw'n hysbys):
Rhan C: Cyd-ddeiliad Contract Arall neu Gyd-ddeiliaid Contract Eraill	Rhan D: Landlord
Enw(au) (os yw'n gymwys): <i>Rhaid i gyd-ddeiliad contract A roi copi o'r hysbysiad hwn i bob un o'r cyd-ddeiliaid contract eraill.</i>	Enw: Cyfeiriad: <i>Rhaid i gyd-ddeiliad contract A roi copi o'r hysbysiad hwn i'r landlord.</i>
Rhan E: Annedd	
Cyfeiriad:	
Rhan F: Hysbysiad o Fwriad i Wneud Cais am Orchymyn sy'n Terfynu Hawliau a Rhwymedigaethau Cyd-ddeiliad Contract B o dan y Contract Meddiannaeth	
<p>Mae'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan A yn credu nad yw'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B yn meddiannu'r annedd uchod ac nad yw'n bwriadu ei meddiannu fel ei unig gartref neu ei brif gartref.</p> <p>Os yw'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B yn meddiannu'r annedd neu'n bwriadu ei meddiannu, rhaid iddo hysbysu'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan A yn ysgrifenedig cyn diwedd y cyfnod rhybuddio ar [dyddiad]</p> <p><i>Sylwer: Rhaid i'r dyddiad penodedig fod bedair wythnos o'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad hwn i'r deiliad contract.</i></p>	

Rhan F: Hysbysiad o Fwriad i Wneud Cais am Orchymyn sy'n Terfynu Hawliau a Rhwymedigaethau Cyd-ddeiliad Contract B o dan y Contract Meddiannaeth (parhad)
<p>Yn ystod y cyfnod rhybuddio, bydd y cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan A yn gwneud unrhyw ymholiadau sy'n angenrheidiol i'w fodloni ei hun nad yw'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B yn meddiannu'r annedd neu nad yw'n bwriadu ei meddiannu.</p> <p>Os yw'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan A wedi ei fodloni ar ddiwedd y cyfnod rhybuddio nad yw'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B yn meddiannu'r annedd neu nad yw'n bwriadu ei meddiannu, caiff y cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan A wneud cais i'r llys am orchymyn yn terfynu hawliau a rhwymedigaethau'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B o dan y contract meddiannaeth.</p>

Rhan G: Llofnod	
Llofnodwyd gan gyd-ddeiliad contract A:	Dyddiad:
.....

Rheoliad 35

FFURFLEN RHW32

Gwybodaeth Cychwyn

I73 Atod. Pt. 32 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

**HYSBYSIAD O FWRIAD LANDLORD I WNEUD CAIS AM ORCHYMYN SY’N
TERFYNU HAWLIAU A RHWYMEDIGAETHAU CYD-DDEILIAD CONTRACT
OHERWYDD YMDDYGIAD GWAHARDDedig**

Rhan A: Landlord	Rhan B: Cyd-ddeiliad y Contract <i>Y mae'r landlord yn credu ei fod yn torri adran 55 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016</i>
Enw:	Enw:
Cyfeiriad:	

Rhan C: Anedd	
Cyfeiriad:	

Mae'r landlord yn rhoi hysbysiad o'i fwriad i wneud cais i'r llys am orchymyn yn terfynu eich hawliau a'ch rhwymedigaethau o dan y contract meddiannaeth.

Rhan E: Llofnod	
Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad:
.....

Canllawiau i landlordiaid

Rhaid hefyd i'r landlord roi hysbysiad i'r cyd-ddeiliaid contract eraill o dan adran 230(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (**Ffurflen RHW33**) yn dweud bod y landlord yn credu bod y cyd-ddeiliad contract yn torri adran 55 o'r Ddeddf honno ac y bydd y landlord yn gwneud cais i'r llys am orchymyn sy'n terfynu hawliau a rhwymedigaethau'r cyd-ddeiliad contract hwnnw o dan y contract.

Cyfyngiadau ar achosion yn dilyn yr hysbysiad hwn

Caiff y landlord wneud cais i'r llys unrhyw bryd cyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r landlord yn rhoi'r hysbysiad hwn i'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B.

Canllawiau i ddeiliaid contract

Mae'r hysbysiad hwn yn dweud wrthyhch fod eich landlord yn bwriadu dechrau achos i ddod â'ch meddiannaeth o'r annedd a nodir yn Rhan C i ben. Dylech ei ddarllen yn ofalus a gofyn am gyngor am eich amgylchiadau cyn gynted â phosibl.

Gall achos llys ddechrau yn union ar ôl i'r landlord ddarparu'r hysbysiad hwn i chi.

Os oes gennych unrhyw amheuan neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch unrhyw agwedd ar yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch landlord yn gyntaf. Gall llawer o broblemau gael eu datrys yn gyflym drwy eu codi'n syth. Os na allwch ddod i gytundeb â'ch landlord, efallai y byddwch am gysylltu ag asiantaeth gynghori (megis Cyngor ar Bopeth Cymru neu Shelter Cymru) neu gynghorwyr cyfreithiol annibynnol. Os ydych yn credu eich bod yn wynebu'r risg o fod yn ddigartref o ganlyniad i gael yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i gael cymorth.

Rheoliad 36

FFURFLEN RHW33

Gwybodaeth Cychwyn

I74 Atod. Pt. 33 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

Ffurflen RHW33

HYSBYSIAD I GYD-DDEILIAID CONTRACT ERAILL O FWRIAD LANDLORD I WNEUD CAIS AM ORCHYMYN SY'N TERFYNU HAWLIAU A RHWYMEDIGAETHAU CYD-DDEILIAD CONTRACT OHERWYDD YMDDYGIAD GWAHARDDDEDIG

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i gyd-ddeiliaid contract eraill o dan adran 230(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod y landlord yn credu bod cyd-ddeiliad contract arall yn torri adran 55 o'r Ddeddf honno ac y bydd yn gwneud cais i'r llys am orchymyn sy'n terfynu hawliau a rhwymedigaethau'r cyd-ddeiliad contract hwnnw o dan y contract meddiannaeth.

Rhan A: Landlord Enw: Cyfeiriad:	Rhan B: Cyd-ddeiliad y Contract <i>Y mae'r landlord yn credu ei fod yn torri adran 55 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016</i> Enw:
Rhan C: Cyd-ddeiliad Contract Arall neu Gyd-ddeiliaid Contract Eraill Enw(au):	Rhan D: Anedd Cyfeiriad:
Rhan D: Hysbysiad o Fwriad i Wneud Cais am Orchymyn sy'n Terfynu Hawliau a Rhwymedigaethau Cyd-ddeiliad Contract Arall o dan y Contract Meddiannaeth Mae'r landlord yn credu bod y cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B yn torri adran 55 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad gwaharddedig arall). Mae'r landlord yn hysbysu ei fwriad i wneud cais i'r llys am orchymyn sy'n terfynu hawliau a rhwymedigaethau'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B o dan y contract meddiannaeth.	
Rhan E: Llofnod Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran: Dyddiad:	

Rheoliad 37

FFURFLEN RHW34

Gwybodaeth Cychwyn

I75 Atod. Pt. 34 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Ffurflen RHW34

HYSBYSIAD O ESTYN Y CYFNOD RHAGARWEINIOL

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract o dan baragraff 3 o Atodlen 4 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod cyfnod rhagarweiniol contract safonol rhagarweiniol wedi ei estyn.

Rhan A: Landlord		Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract	
Enw:		Enw(au):	
Cyfeiriad:			

Rhan C: Annedd	
Cyfeiriad:	

Rhan D: Hysbysiad o Estyn y Cyfnod Rhagarweiniol	
Mae'r landlord wedi penderfynu estyn cyfnod rhagarweiniol contract safonol rhagarweiniol yr annedd uchod i'r cyfnod o 18 mis, gan ddechrau ar y dyddiad cyflwyno.	
Y dyddiad cyflwyno yw [dyddiad] ac mae'r cyfnod rhagarweiniol o 18 mis yn dod i ben ar [dyddiad]	
Dyma'r rhesymau dros y penderfyniad i estyn y cyfnod rhagarweiniol: <i>Rhowch y rhesymau'n glir.</i>	

Rhan E: Hawl i Ofyn am Adolygiad	
Cewch chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, o dan baragraff 4 o Atodlen 4 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ofyn i'r landlord adolygu'r penderfyniad i estyn y cyfnod rhagarweiniol. Rhaid i gais am adolygiad gael ei wneud i'r landlord erbyn [dyddiad]	
<i>Sylwer: Rhaid i'r dyddiad penodedig fod o leiaf 14 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y mae'r landlord yn rhoi'r hysbysiad hwn i ddeiliad neu ddeiliaid y contract.</i>	

Rhan F: Llofnod	
Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad:
.....

Rhaid i'r hysbysiad hwn gael ei roi i'r deiliad contract o leiaf wyth wythnos cyn y diwrnod y byddai'r cyfnod rhagarweiniol wedi dod i ben fel arall.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)

FFURFLEN RHW35

Gwybodaeth Cychwyn

- I76** Atod. Pt. 35 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Ffurflen RHW35

HYSBYSIAD O FWRIAD I WNEUD CAIS AM ORCHYMYN SY’N ARDDODI CONTRACT SAFONOL YMDDYGIAD GWAHARDDedig

Mae’r ffurflen hon i’w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract o dan baragraff 1(1) o Atodlen 7 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod y landlord yn bwriadu gwneud cais i’r llys (o dan adran 116 o’r Ddeddf honno) am orchymyn sy’n arddodi contract safonol cyfnodol (“contract safonol ymddygiad gwaharddedig”) oherwydd ymddygiad gwaharddedig (fel y’i disgrifir gan adran 55 o’r Ddeddf honno).

Rhan A: Landlord	Rhan B: Deiliad neu Ddeiliad y Contract
Enw:	Enw(au):
Cyfeiriad:	

Rhan C: Anedd
Cyfeiriad:

Rhan D: Hysbysiad o Fwriad i Wneud Cais am Orchymyn sy’n Arddodi Contract Safonol Cyfnodol (“Contract Safonol Ymddygiad Gwaharddedig”)
<p>Mae’r landlord yn hysbysu ei fod yn bwriadu gwneud cais i’r llys am orchymyn yn arddodi contract safonol cyfnodol (“contract safonol ymddygiad gwaharddedig”) o dan adran 116 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ar y sail eich bod chi, ddeiliad y contract, yn torri adran 55 o’r Ddeddf honno (ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad gwaharddedig arall).</p> <p>Dyma fanylion yr ymddygiad y ceisir gorchymyn mewn cysylltiad ag ef: <i>Rhowch y manylion yn glir.</i></p> <p>Ni chaniateir i achos gael ei ddwyn cyn [dyddiad] <i>Sylwer: Caiff y dyddiad penodedig fod y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad hwn i’r deiliad contract.</i></p> <p>Ni chaniateir i achos gael ei ddwyn ar ôl [dyddiad] <i>Sylwer: Rhaid i’r dyddiad penodedig fod yn ddiwedd y cyfnod o chwe mis sy’n dechrau â’r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad i’r deiliad contract.</i></p>

Rhan E: Llofnod	
<p>Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:</p> <p>.....</p>	<p>Dyddiad:</p> <p>.....</p>

FFURFLEN RHW36

Gwybodaeth Cychwyn

177 Atod. Pt. 36 mewn grym ar 1.12.2022 , gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Ffurflen RHW36

HYSBYSIAD O DDIWEDD CYFNOD PRAWF: CONTRACT SAFONOL YMDDYGIAD GWAHARDDDEDIG

Maer ffurflen hon i'w deynyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract o dan baragraff 3(2) o Atodlen 7 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod cyfnod prawf contract safonol ymddygiad gwaharddedig i ddod i ben.

Rhan A: Landlord	Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract
Enw:	Enw(au):
Cyfeiriad:	
Rhan C: Anedd	
Cyfeiriad:	
Rhan D: Hysbysiad o Ddiwedd Cyfnod Prawf	
Mae'r landlord yn hysbysu y bydd y cyfnod prawf, mewn perthynas â chontract meddiannaeth yr annedd uchod, yn dod i ben ar [dyddiad], pryd y bydd y contract meddiannaeth yn cael ei ddisodli gan contract diogel.	
Rhan E: Llofnod	
Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad:
.....

Rheoliad 40

FFURFLEN RHW37

Gwybodaeth Cychwyn

178 Atod. Pt. 37 mewn grym ar 1.12.2022, gweler [rhl. 1](#) (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

HYSBYSIAD O ESTYN CYFNOD PRAWF: CONTRACT SAFONOL YMDYGLAD GWAHARDDedig

Rhan A: Landlord	Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract
Enw:	Enw(au):
Cyfeiriad:	

Cyfeiriad:

Mae'r landlord wedi penderfynu estyn cyfnod prawf contract safonol ymddygiad gwaharddedig yr annedd uchod i'r cyfnod o 18 mis sy'n dechrau ar ddyddiad meddiannu'r contract. Bydd y cyfnod prawf yn dod i ben ar [dyddiad]

Dyma'r rhesymau dros y penderfyniad i estyn y cyfnod prawf:
Rhowch y rhesymau'n glir.

Cewch chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, o dan baragraff 5 o Atodlen 7 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ofyn i'r landlord adolygu'r penderfyniad i estyn y cyfnod prawf. Rhaid i gais am adolygiad gael ei wneud i'r landlord erbyn [dyddiad]

Sylwer: Rhaid i'r dyddiad penodedig fod o leiaf 14 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y mae'r landlord yn rhoi'r hysbysiad hwn i ddeiliad neu ddeiliaid y contract.

Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad:
.....
<p><i>Sylwer: Rhaid i'r hysbysiad hwn gael ei roi i'r deiliad contract o leiaf wyth wythnos cyn y diwrnod y byddai'r cyfnod prawf wedi dod i ben fel arall</i></p>	

FFURFLEN RHW38

Gwybodaeth Cychwyn

I79 Atod. Pt. 38 mewn grym ar 1.12.2022, gweler **rh. 1** (fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/906), ergl. 9)

Ffurflen RHW38

HYSBYSIAD Y LANDLORD O DERFYNU: CONTRACT SAFONOL CYFNOD PENODOL (CONTRACT WEDI EI DROSI)

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract safonol cyfnod penodol (nad yw o fewn Atodlen 9B i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ac a oedd yn union cyn i'r Ddeddf honno ddod i rym yn denantiaeth neu'n drwydded am gyfnod penodol) o dan baragraff 25B(2) o Atodlen 12 i'r Ddeddf honno, bod rhaid iddo ildio meddiant o'r annedd ar ddyddiad penodedig.

Rhan A: Landlord	Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract
Enw:	Enw(au):
Cyfeiriad:	

Rhan C: Annedd
Cyfeiriad:

Rhan D: Hysbysiad i Ildio Meddiant
Yn unol â pharagraff 25B(2) o Atodlen 12 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, mae'r landlord yn rhoi hysbysiad i chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, bod rhaid i chi ildio meddiant o'r annedd uchod ar [dyddiad]
Os nad ydych chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, yn ildio meddiant o'r annedd ar y dyddiad a bennir uchod, caiff y landlord wneud hawliad meddiant i'r llys.
Rhaid i'r hysbysiad hwn gael ei roi cyn neu ar ddiwrnod olaf y cyfnod y gwnaed y contract meddiannaeth ar ei gyfer.
<i>Sylwer: Ni chaff y dyddiad penodedig fod:</i>
<i>-Yn llai na chwe mis ar ôl y dyddiad meddiannu (gan gynnwys dyddiad meddiannu tenantiaeth neu drwydded sy'n cymryd lle tenantiaeth neu drwydded arall),</i>
<i>-Cyn diwrnod olaf y cyfnod y gwnaed y contract wedi ei drosi ar ei gyfer, neu</i>
<i>-Yn llai na dau fis ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad hwn i ddeiliad neu ddeiliaid y contract.</i>

Rhan E: Llofnod	
Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad:
.....

Canllawiau i ddeiliaid contract

Yr hysbysiad hwn yw'r cam cyntaf sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ildio meddiant o'r annedd a nodir yn Rhan C. Dylech ei ddarllen yn ofalus iawn. Os na fyddwch yn ildio meddiant erbyn y dyddiad a roddir yn Rhan D, caiff eich landlord wneud cais i'r llys am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ildio meddiant.

Os oes gennych unrhyw amheuan neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch unrhyw agwedd ar yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch landlord yn gyntaf. Gall llawer o broblemau gael eu datrys yn gyflym drwy eu codi'n syth. Os na allwch ddod i gytundeb â'ch landlord, efallai y byddwch am gysylltu ag asiantaeth gynghori (megis Cyngor ar Bopeth Cymru neu Shelter Cymru) neu gynghorwyr cyfreithiol annibynnol. Os ydych yn credu eich bod yn wynebu'r risg o fod yn ddigartref o ganlyniad i gael yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i gael cymorth.

Cyfyngiadau ar roi'r hysbysiad hwn

Torri rhwymedigaethau statudol

Yn unol ag adran 186A o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn ar adeg pan fo unrhyw rwymedigaethau statudol a restrir yn Atodlen 9A i'r Ddeddf honno wedi eu torri:

1. Methu â darparu datganiad ysgrifenedig;
2. Cyfyngiad o chwe mis yn dilyn methu â darparu datganiad ysgrifenedig o fewn y cyfnod a bennir yn adran 31 (o'r Ddeddf honno);
3. Methu â darparu gwybodaeth;
- 3A. Methu â darparu tystysgrif perfformiad ynni ddilys;
4. Torri gofynion sicrwydd a blaendal;
5. Taliadau gwaharddedig a blaendaliadau cadw o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019;
- 5A. Methu â sicrhau bod larymau mwg a larymau carbon monocsid sy'n gweithio wedi eu gosod;
- 5B. Methu â chyflenwi adroddiad ar gyflwr trydanol etc.;
- 5C. Methu â darparu adroddiad ar ddiogelwch nwy i ddeiliad y contract.

Ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn oni chydymffurfiwyd â gofynion adran 44 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Yn unol ag adran 75 o Ddeddf Tai 2004, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn mewn perthynas â thŷ amlfeddiannaeth sydd heb drwydded yn unol â'r Ddeddf honno.

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi ffurf hysbysiadau penodol a dogfennau eraill y mae'n ofynnol neu yr awdurdodir eu rhoi neu eu gwneud gan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 22016 (dccc 1) neu oherwydd y Ddeddf honno.

Mae rheoliad 3(1) yn cyflwyno'r rheoliadau a'r Atodlen sy'n nodi ffurf yr hysbysiadau a'r dogfennau eraill a ragnodir gan y Rheoliadau hyn. Mae rheoliad 3(2) yn darparu bod hysbysiad neu ddogfen arall sydd ar ffurf sydd ag effaith sylweddol debyg yn ddilys.

Mae rheoliadau 4 i 41 yn rhagnodi ffurf pob hysbysiad penodedig neu ddogfen arall benodedig.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r

Newidiadau i ddeddfwriaeth: *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022. (See end of Document for details)*

manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Dai, Llywodraeth Cymru, Parc Busnes Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ.

Newidiadau i ddeddfwriaeth:

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiâu Rhagnodedig) (Cymru) 2022.